

ECO'R WYDDFA

RHIF 311

MAI 2004

PRIS 40c

Y penwythnos diwethaf bu farw Eirug Wyn, y llenor o'r Groeslon, yn 53 oed. Treuliodd ei ieuenctid yn Neiniolen gan fynychu'r ysgol leol ac Ysgol Brynrefail. Cydymdeimlwn â'i wraig Gwenda, ei blant Dwynwen a Rhiannon, gweddill y teulu a phawb o'i gyfeillion yn yr ardal.

SYMUDODD Eirug Wyn a'r teulu i fyw i Ddeiniolen ar ddiwedd y Pumdegau pan apwyntiwyd ei Dad, Y Parch. John Price Wynne, yn Weinidog ar Gapel Cefn-y-Waun. Er i Eirug gael ei eni a'i fagu yn Llanbrynmair, a threulio'r rhan fwyaf o'i oes yn Y Groeslon, fedra i ddim peidio meddwl amdano fo fel hogyn o Ddeiniolen. Mi fu'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ac bu dylanwad yr ardal yn gryf arno fo fel person, ac ar ei waith fel sgwennwr.

Daeth Eirug i'r pentra ar gychwyn un o'r degawdau mwyaf cyffrous yn hanes diweddar Cymru, ac mi chwaraeodd yntau ei ran yn yr hanes hwnnw. Mae'n deg dweud nad oedd hi mor hawdd bod yn genedlaetholwr yng Nghymru yr adeg honno, ond roedd argyhoeddiad Eirug am yr hyn yr oedd o'n gredu ynddo, a'i ddyfalbarhad wrth lynu at ei egwyddorion, yn ysbrydoliaeth i lawer oedd yn ei 'nabod.

Mae pryder y gall codi mast cyfathrebu yn Nyffryn Peris effeithio ar iechyd trigolion yr ardal.

Nant Peris ydi'r lle diweddaraf i glywed bod cynllun i godi mast uwchben y pentref.

Er bod yr awdurdodau yn dweud fod y dechnoleg yn ddiogel, nid yw pawb yn cytuno ac mae'r cyhoedd yn y niwl ynglŷn â phwy i'w gredu. Wedi cyfarfod cyhoeddus i drafod y mast yn Ty'n Llan yr wythnos ddiwethaf erys nifer o gwestiynau heb eu hateb.

'Fedra i ddim dweud fy mod i fawr callach,' oedd ymateb un wraig ar ôl y cyfarfod.

Mae'r cais cynllunio yn gofyn am ganiatâd i godi 'mast Tetra' (Terrestrial Trunk Radio) fel rhan o gynllun cyfathrebu anferth ar draws pob modfedd o wledydd Prydain a fyddai'n rhoi system gyfathrebu sy'n ddiogel ac effeithiol i'r huddlu. Eisioes mae dros ddeg ar hugain o heddluoedd yn defnyddio TETRA a'r cyfan yn cael sêl bendith y Llywodraeth. System ydyw - yn ôl

EIRUG WYN



Dyn y 'gwneud' nid dyn y 'dweud' oedd Eirug. Dyna pam y rhoddodd o ddwy lythyren 'D' ar ei gar tra'n dysgu gyrru. Mi roedd y peth mor syml o amlwg - iddo fo. A do, mi dynnodd nyth cacwn i'w ben, ond roedd o'n gwybod ei fod o'n gwneud y peth iawn. Yn ystod cyfnod y teulu yn Neiniolen hefyd y cafodd Eirug ei garcharu am ei ran yn yr ymgyrch i gael arwyddion dwyieithog yng Nghymru, a dyna

ddwy enghraifft o frwydrau sydd bellach wedi eu hennill i'r Gymraeg.

Ond yn wahanol i ambell un, wnaeth o erioed gredu fod y frwydr dros barhad y Gymraeg wedi ei hennill yn llwyr. Mi fuodd o'n ymgyrchu drosti yn ei ffordd ei hun ar hyd ei oes. Rhan o'r frwydr honno oedd agor siopau llyfrau Cymraeg, cyhoeddi a sgwennu llyfrau Cymraeg, a rhoi ei ysgwydd

Y rhifyn hwn:

Diffyg cefnogaeth
i'r
Eisteddfod Genedlaethol

- Stori lawn tud 11

dan faich sawl mudiad, cymdeithas neu sefydliad Cymraeg.

Daeth i sylw cenedlaethol fel sgwennwr, am y tro cyntaf pan enillodd goron Eisteddfod yr Urdd ym 1974. Dyddiadur wythnos oedd y testun, ac Eirug yn penderfynu sgwennu dyddiadur dyn oedd yn ei arch, o ddiwrnod ei farw hyd at ddiwrnod ei gladdu. Roedd y gwaith yn llawn hiwmor, ac fel petae hynny ddim yn ddigon mi yrrodd y gwaith i'r gystadleuaeth ar ddarnau o bapur wedi eu torri ar ffurf arch, a chlawr cardbord ar y dechrau a'r diwedd. Sylw un o'r beirniaid am hyn oedd mai "dim ond ffwl neu athrylith" fuasai'n meddwl gwneud y ffashiwn beth.

Er iddo barhau i sgwennu trwy'r blynyddoedd, bu'r cyfnod o ddechrau'r Nawdegau tan eleni yn gyfnod eithriadol o gynhyrchiol iddo. Cyhoeddodd o leia bymtheg cyfrol yn ystod y cyfnod yma, yn eu mysg ddwy gyfrol a enillodd Y Fedal Ryddiaith, a dwy arall ddaeth â Gwobr Goffa Daniel Owen iddo.

Ond efallai mai'r stori fwyaf oedd stori ei fywyd ei hun. Mynd amdani hefo'i droed ar y sbardun ym mhob dim yr oedd o'n ei wneud. Roedd o'n ymgyrchwr tanbaid, yn gymeriad allai wneud i bobol rowlio chwerthin, ac yn ffrind gyda'r mwyaf triw y medra dyn ei gael.

Y geiriau a'r chwerthin fydd yn aros yn y cof. Hynny yn ogystal â'r caredigrwydd a'r haelioni oedd yn gymaint rhan ohono fo. Cenedlaetholwr, cymeriad, cyfaill.

Pryder am Effaith Mast ar Iechyd Pobol yr Ardal

yr awdurdodau - sy'n berffaith ddiogel.

Ond nid pawb sy'n cytuno â'r farn honno. Mae yna amheuan ynglŷn â diogelwch TETRA, yn enwedig pan leolir mastiau yng nghanol pentref neu dref, fel ar Westy'r Afr ym Meddgelert. Ar y rhyngwrdd mae erthyglau lawer sy'n sôn am y peryglon tybiedig a'r diffyg gwybodaeth.

Yn ôl y gwyddonydd, Dr Gerald Hyland o Brifysgol Warwick, does dim digon o waith ymchwil manwl wedi ei wneud ar y pwnc.

'Petai'r un lefel o ansicrwydd o gwmpas cyffur newydd, ni fyddai byth yn cael ei drwyddedu,' meddai.

Ond dywed y Swyddfa Gartref - sydd y tu cefn i'r cynllun - nad oes sail i'r pryderon a bod ymchwil gan y Bwrdd Diogelu Radiolegol Cenedlaethol yn profi bod y system yn ddiogel.

'Mewn anwybod y mae nef yn wir,' meddai'r bardd, ond fel arall

mae hi yn y Nant a'r ardaloedd yma.

Er presenoldeb Prif Swyddog Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a dau o swyddogion yn gysylltiedig â'r cwmnïau sy'n codi'r mast, chafwyd dim atebion i'r cwestiynau ynglŷn ag iechyd, a dim tawelwch meddwl.

'Tydan ni ddim yn arbenigwyr yn y maes yna,' oedd yr ateb gafwyd bob tro.

Mae'r system TETRA'n darlledu ar amledd o 17.6Hz, amledd fe ddywedir sy'n agos iawn at yr un y mae'r ymenydd dynol yn weithredol arno, a dyna pam y fath bryder. Yn y gorffennol bu digon o drin a thrafod ar ddiogelwch technoleg GSM, technoleg ffôn symudol, ac er na ddywedodd Adroddiad Stewart, a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, fod y rheini'n beryglus, ddywedodd o ddim chwaith eu bod nhw yn ddiogel. Yn wir cafwyd cryn dipyn o gyngor ar sut i osgoi risg a allai fod yn bresennol gyda'r rheini.

Dywedwyd dro ar ôl tro yn y cyfarfod fod angen y mast oherwydd fod bwlch o ganllath, fwy neu lai, yn y pentref lle na fyddai derbyniad ar gyfer setiau radio'r heddlu o dan y drefn newydd. Mae mastiau i'w codi, ac wedi cael caniatâd cynllunio honedig, ar ben Gorffwysfa, yr hostel ym Mhen y Pas, a ger Hafod Lydan, Llanberis. Pryd a sut y cafodd y rhain ganiatâd, nid oedd neb yn siŵr. Codi dau bolyn pum medr o uchder i wella'r derbyniad o'r naill ochr a'r llall a'i drosglwyddo ymlaen a'i chwalu dros y pentref ydi'r bwriad yma. Bydd ei bŵer, yn ôl yr arbenigwyr, yn is na'r mastiau eraill ond gan nad oes neb yn medru sicrhau fod y mastiau na'r gyfundrefn yn ddiogel, parhau'n amheus a phryderus mae'r mwyafrif mawr o drigolion Nantperis.

Trefnwyd deiseb, a arwyddwyd gan fwyaf y trigolion, yn galw ar bwyllgor cynllunio APCE i wrthod y cais cynllunio i godi'r mast.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 311
MAI 2004**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Swn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 17

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 27

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mehefin	17 Mai	27 Mai	Brynrefail	Gwyn Hefin Jones	870848

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Efallai y bydd o ddiddordeb i'ch darllenwyr wybod am y datblygiad cyffrous ym myd newyddiaduraeth Gogledd America.

Mae'r ddau fisolyn Cymreig wedi uno'n llwyddiannus iawn ers chwe mis.

Dechreuwyd *Y Drych* dros gant a hanner o flynyddoedd yn ôl, ac mae *Ninnau* bron yn 30 oed. Sylfaenydd a golygydd y papur unedig ydi Dr. Arturo Roberts.

Bydd yr uno o fantais i'r gymuned Gymreig gan sicrhau y bydd yn cael y newyddion i gyd, ac y bydd enw'r *Drych* a'i holl gysylltiadau hanesyddol, yn parhau.

Nid i bobl Gogledd America yn unig y mae'r uno hwn yn newydd da, gan fod i'r ddau bapur ddilynwyr ffyddlon mewn sawl gwlad, gan gynnwys Cymru, ble mae llawer iawn o ddarllenwyr.

Yng Nghymru mae'r papur i'w gael yn y Siopau Llyfrau Cymraeg neu drwy danysgrifio yn uniongyrchol. Wrth gwrs gall busnesau yng Nghymru gyrraedd cynulleidfia eng Cymry Gogledd America wrth hysbysebu yn y papur ar ei newydd wedd.

Gellir cysylltu â'r papur drwy e-bost: ninnau@poboxes.com neu ydrych@poboxes.com, neu gellir ei ddarllen ar y we ar www.ninnau.com. Rhif ffacs y papur yw 001 908 221 0744 a'r cyfeiriad yw 11 Post Terrace, Basking Ridge, NJ 07920, UDA.

Byddwn yn falch o glywed gennych chi.

Yn gywir
Arturo Roberts

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

Sadwrn, 1 Mai 2004

Festri Capel Salem, Caernarfon

10.30: Cyfarfod Blynnyddol
Rhanbarth Gwynedd

11.00: Cyfarfod Cyhoeddus
*Y Chweched Dosbarth - Dan
Fwyell ELWa?*

Gwahoddiwyd Alun Ffred AC,
Eifion Jones a Dewi Gwyn
(Cynrychiolwyr o'r chweched
dosbarth)

Gweithdai Ymgyrchu

1.00: Cinio

2.00: Cyfarfod i drefnu
gweithgareddau
Cymdeithas yr Iaith yn
Eisteddfod yr Urdd
Llangefni

RHODDION

£25: Gweno Huws, Coetmor,
Penrhyndeudraeth, er cof am
Mrs Mary Williams, 31 Bro
Rhos, Bethel.

£20: Er cof am mam, Ellen
Wright, 1 Bro Syr Ifor,
Tregarth, gan y plant.

£11: Di-enw; Gwilym Ellis,
Gwryfai, Llandrindod.

£10: Elwyn ac Alwena
Williams, Llanddona;

Gwyneth a Deryck, 15 Stryd y
Ffynnon, Llanberis er cof am
Kitty; Rhiannon Evans,
Gillian a Gwynfor Jones,
Isallt, Stryd Newton,
Llanberis; Cledwyn Jones, 56
Glanffynnon, Llanrug; Teulu
Bryn Eithin, Waunfawr; Dr
Fraser Williams, Sale,
Cheshire; Mrs Ann Rhys
William, 14 Elm Grove, Rhyl;
Magaret Wyn Roberts,
Rhodynog, Ffordd Bethel,
Caernarfon.

£5: Gwen Edwards a'r teulu;
Mrs Delyth Jones, 11 Trem
Eilian, Brynrefail; Martyn a
Carol Druce, Gogledd
Iwerddon (Llanberis gynt).

£1: Pat Parry, Waunfawr.

Cyngerdd Cyffrous

Bydd y delynores gyffrous,
Catrin Finch, a'r tenor
adnabyddus, Rhys Meirion, yn
ymuno â chantorion lleol. Côr
Seiriol ar gyfer cyngerdd
arbennig iawn nos Sadwrn,
Mehefin 12, yn Neuadd
Pritchard Jones, Bangor.


Yn y cyngerdd bydd y Côr yn
rhoi y perfformiad cyntaf erioed
o ddarn cynhyrfus newydd gan
y cyfansoddwr byd enwog Karl
Jenkins. Comisiynwyd y darn
sef 'Cantus Triquetrus' gan Gôr
Seiriol, gyda chefnogaeth
Cyngor y Celfyddydau.

Daeth y syniad o ofyn i Karl
Jenkins gyfansoddi darn yn
arbennig i'r Côr yn dilyn
llwyddiant yng nghystadleuaeth
Côr Cymru 2003 lle'r oedd Karl
Jenkins yn feirniad. Côr Seiriol
oedd yn fuddugol yn y
gystadleuaeth i gorau merched.

Yn y cyngerdd bydd y Côr
hefyd yn perfformio darnau
eraill o waith Karl Jenkins gyda
chymorth Caren Buse ar y
recorder.

Pris y tocynnau yw £12 i
oedolion, a £8 i blant a
myfyrwyr ac maent ar gael drwy
ffonio 01248 716337 neu 01248
421139.

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Y GWALCH

Dyrys Daith
gan Y GWALCH

Rhyw dro, yn y pell orffennol, pan oedd Joan a minnau yn teithio ar y BSA, yn y Pentir Iberaidd i olrhain taith George Borrow, yr oeddem fel pe baem wedi ein tyngedu i dramgwyllo Eglwys Rhufain a'i deiliaid.

Un bore o Ionawr, yr oeddem yn mynd am Burgos a gwyntoedd oerion y Sierra yn chwipio ar draws gwastadeddau Hen Gastell, ac yr oeddem yn falch o gyrraedd y ddinas honno a chael lloches ei heglwys gadeiriol. Serch fod gennym ddillad lledr a phlyg o bapur llwyd o dan hwnnw, roeddem bron a chorffi.

Doeddem ni, fodd bynnag, ddim wedi bod yn yr adeilad fawr mwy na dau funud, pan ddaeth sacristan gwarog allan o gongl dywyll, fel pryf copyn, a dechrau rhyfrio ar Joan mewn Sbaeneg anodd ei ddeall, ac yr oedd yn ailadrodd y gair pantalwns trosodd a throsodd. Yn y diwedd deallasom ei fod yn gwrthwynebu iddi fod yno mewn trowsus, ac oddi yno y bu raid i ni fynd yn ein holau i'r ocrni.

Efallai fod y Pab wedi gorfod newid y rheol i gydfynd â'r byd sydd ohoni. Y tebygrwydd ydi fod yna rai hefo bogeli noeth yno erbyn hyn.

Ymhen rhyw fis wedyn, ar ôl teithio drwy Bortiwgal, yr oeddem yn aros mewn gwesty bychan yng Ngranada, Andalusia. Rhyw ddynes dal ganol oed oedd y perchennog, allanol sarrug ond yn eithaf clên, fel y gweddill o'r gwasanaethyddion.

Pan ddangoswyd i ni ein hystafell, gwelsom lun anferth yn crogi uwchben y gwely: y Crist, gwaedlyd arteithiol ar y grocs, a chan nad oedd gennym chwaeth i noswyllo na deffro o dan y fath ddrychiolaeth, cuddiasom ef o dan y gwely a mynd trannoeth am dro i'r dre

a'i anghofio. Ond pan ddaethom yn ein holau, sylwasom fod awyrgylch y llety wedi newid yn gyfangwbl, oerni ac atebion swta ar bob tu a chefais wŷs yn y diwedd i weld y patron yn ei swyddfa.

Yr oedd hi'n sefyll yn syth y tu ôl i'w desg, mewn du i gyd, ac heb ragymadrodd gofynnodd i mi beth oedd ystyr y llun o dan y gwely. A daeth Torquemada ar unwaith i'm cof.

Yn ystod oes, mae rhywun unwaith neu ddwy yn cael fflachiadau o weledigaethau i ddod allan o dyllau. Daeth un i mi yr adeg honno mwya' annisgwyl.

'Yn lle yr ydan ni yn byw,' meddwn i, 'fydd llun o'r Crist croeshoeliedig byth yn cael ei gario i mewn i ystafell os na fydd rhywun ar ei wely angau yno. Mae fy ngwraig wedi cael ei brawychu yn arw.'

Gweddnewidiodd y ddynes ar amrantiad. Welsom ni ddim o'r llun wedyn, ac adferwyd y cyfeillgarwch blaenorol rhyngom â'r gweddill orlog.

Cefais f'atgoffa o'r achlysur wrth weld lluniau lliwgar o'r ffilm ddigrybwyll enbyd ddiweddar, a'r golygfeydd cignoeth sydd yn dal i gyfareddu rhai.

Yn amlwg does yna fawr newid wedi bod ar chwaeth at dywallt gwaed a dioddefaint ers cyfnod y Colosseum a'i herchyllderau, tros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl!

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir
(01248) 353746

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Briwsion Byd Natur Dafydd Guto



Trafod ydi trafod ynte!

Dydy o'n wyrthiol, dwedwch, fod gan fod dynol o Gymnro gym'int fyth o eiria i'w dewis tra'n trin a thrafod un gwrthrych? Dyna i chwi, er enghraifft, flodyn sy'n blodeuo'n flynyddol rhwng misoedd Mehefin ac Awst (cadwch olwg craff amdano) ac a elwir *Gwlyddyn Mair* (dylanwad Catholigaidd yng Nghymru?), ond sydd hefyd wedi ei freintio â'r enwau canlynol: *Almanac y dyn tlawd*, *Blodyn bach y g'law*, *Blodyn caws*, *Blodyn gini'r owns*, *Brathlys*, *Cloc tywydd y dyn tlawd*, *Cloc yr hen ŵr*, *Coch bach* (ond nid y creadur a gafodd lawar bai ar gam, tra'n byw yn y Bala dirion deg, a sawl ardal arall ran hynny), *Coch yr ŷd*, *Glas y ffarmwr*, *Hir-fynag y gŵr tlawd*, *Llysieuyn y Cryman*, *Oriawr y bugail*. Diawch erioed, y fath restr hirfaith, a'r ffasiwn gyfoeth onide? Gresyn inni fel Cymry Cymraeg eu diarddel, a'u lluchio ar y domen.

Mi fydddech yn synnu cymaint o hynny sy'n digwydd. Rydym yn prysur anwybyddu ein trafadaeth ac enwau hollol syml yn y Gymraeg am aniseciliaid, blodau, planhigion, pryfed, pysgod ac ymlusgiaid. Byddai'n braf clywed oddi wrthych chwi'r darllenwyr pa enw a ddefnyddiwyd yn naturiol ar dafod leferydd am

Wlyddyn Mair. Ia, ynte! Beth am daro gair atom?

Gair ymhellach gan un arbenigwr ym maes blodau gwylltion, sef y diweddar R.E. Vaughan Roberts, gŵr a oedd hefyd yn ymddiddori mewn bywyd a hynt glöynnod byw Cymru (ieir bach yr haf, pili pala), a dyma ddyfynnu o'i lyfr cynhwysfawr, un hynod liwgar, sef *Llyfr Blodau* (1952), chwyldroadol ran amser ei gyhoeddi os rw bath, ac ar dudalen rhif 37 ceir ymdriniaeth feistrolgar â *Llys* neu *Lysieuyn y Cryman* (ie, *Gwlyddyn Mair*), sydd yn ôl pob sôn â'i flodyn coch ei liw yn cau ac agor yn ôl y tywydd! Digon gwir bob gair hefyd. Ebe R.E. Roberts ymhellach:

'hyd yn oed ar hindda nid yw'n agored onid rhwng nazw o'r gloch a thri; ac y mae cwmwl yn croesi wyneb yr haul yn ddigon i beri iddo gau. Y mae'n rhy eiddil i ddal ei geinciau i fyny. Pwysa ar ei gymdogion neu orweddian ar y llawr. Ni phery onid am un tymor; rhaid iddo ail-godi o hadau bob blwyddyn.

Rwan ta, yr un planhigyn a'r enw *Brathlys*. Dyma beth sydd gan R.E. Vaughan Roberts i'w ddweud amdano:

Tybiai'r hen bobl fod Llys y Cryman yn dda at frathiad ci cynddeiriog.'

Ys gwn i a wyddoch chwi sut y defnyddid y planhigyn er mwyn cael trefn ar greadur a frathwyd gan gi?

Dalm o amser yn ôl ysgrifenaais am geisio dod o hyd i *Lysieuyn Pen Tai*, a'i ganfod, da y cofiwch, ym mherfeddion Lloegr. Ond nid felly y tro hwn hefo *Gwlyddyn Mair*. Mi roedd yn tyfu'n union ar dir diffaith yn union wrth gefn fy nghartref. Wyddoch chi be? Mae rhywun ar adegau yn gwbwl gib-dall ynghylch y pethau bychain, o dragwyddol bwys, sy'n tyfu bron wrth garreg ei ddrws. Mae hynny'n golygu fod yn rhai imi frwydro'n galetach dros ofalu na fydd hen eiriau diflanedig, chwedl un o'm hoff feirdd, Waldo, yn diflannu am byth o'n plith.

Ymunwch â ni yn Penrhos am ddiwrnod i'w gofio!!

- Y Priodasau
- Y Achlysuron Arbennig
- Y Partion Plant
- Y Cyfarfodydd
- Y Gwely a Brecwast
- Y Lleoliadau Ffilmio
- Y Te Angladdau



Penrhos, Caerarth, Caernarfon

(01286) 676667

Y Lleoliad Perffaith ar gyfer unrhyw Achlysur



AM WASANAETH YSWIRIANT PERSONOL

GALWCH EIN SWYDDFA LEOL
YNG NGAERNARFON

NFU Mutual FFÔN 01286 673377
FFACS 01286 671440

YSWIRIANT LLEOL A CHYSTADLEUOL AR GYFER

TAI, CERBYDAU, YSWIRIANT BUSNES A BUDDSODDIADAU

NFU MUTUAL
19 STRYD BANGOR
CAERNARFON LL55 1AT

Mae'r NFU MUTUAL yn aelod o'r General Insurance Standard Council

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma rhestr o enillwyr y Clwb am fis Mawrth: £40: Mr Reg King, Ger y Nant; £25: Mr Bernard Parry, 1 Bryn Goleu; £10: Mrs A. Thomas, Gilfach.

CÔR Y WAUN. Bu'r Côr yn cadw noson yn y Clwb Hwyllo yng Nghaernarfon ar nos Wener, 19 Mawrth. Cafwyd noson arbennig a chroeso cynnes gan aelodau'r Clwb. R. Gwynn Davies oedd yn cyflwyno gyda'i hwyl arferol. Yn ogystal ag eitemau gan y Côr cafwyd datganiadau cofiadwy gan Fiona Sanderson.

Byddwn yn cymryd rhan mewn cyngerdd yng Nghapel Glanrhyd, Dinas ar 14 Mai gyda Siân Gibson, Iwan Parry, Manon Wilkinson ac Elid Ann Jones a'r elw yn mynd i'r capel.

Mae'r ychydig CD's sydd yn weddill ar werth yn siop Bryn Pistyll, Antur Waunfawr. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r Côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd,

Emyr Roberts ar (01286) 650128. LLONGYFARCHIADAU

PRIODAS. Dydd Sadwrn y Pasg, yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon, priodwyd Valerie Roberts, Stad Bryn Golau â Christian Dixon o Sheffield. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r pâr ifanc. DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Iona Williams, Garreg Fawr ar ei dyweddïad ag Emlyn o Saron, Llanwnda.

Rhaid ei llongyfarch hefyd ar lwyddo i gwblhau Marathon Llundain dydd Sul, 18 Ebrill.

DATHLU PEN-BLWYDD. Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am ddiwrnod pen-blwydd hapus yn 93 oed at Mrs Gwladys Jones, Stad Tref Eilian.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i deulu Tŷ Capel Croesywaun ar enedigaeth eu merch fach, Poppy, chwaer fach i Jack.

Chwaer fach a anwyd i Cai,

Glan Menai hefyd. Bydd wrth ei fodd yn helpu mam a dad, Sasha a Neil Allcock, i edrych ar ei hôl. DAMWAIN. Mae Mrs Katie Roberts, Derlwyn wedi disgyn a thorri ei braich. Dymunwn adferiad buan i chwi, Mrs Roberts.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mr Iwan Roberts (lwcs), Teras Glyn Afon, ar ôl derbyn llawdriniaeth.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs J. Jones, Glyn Ceris a Mr Trefor Beech, Bronallt. Dymunwn adferiad iechyd buan ichi.

BEDYDD. Yn dilyn y gwasanaeth fore Sul y Pasg yng Nghapel Croesywaun, gyda'r Parch Gwenda Richards yn gweinyddu, bedyddiwyd Tomos, Emily a Fiona, plant bach Michael a Karen Owen, Stad Bro Waun, a Mair, modryb iddynt.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Eryri, bu farw Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, priod annwyl Mrs Alice Hughes. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi ac â Rita, Margaret a Pat a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein

cydymdeimlad dwysaf i Geraldine, Steven a Beth, Stad Tref Eilian yn eu profedigaeth lem o gollu Victoria, eu merch a chwaer fach ddeng diwrnod oed. Roedd yn wyres fach i Rita a Brian Henderson, Siop y Pentref a gorywres fach Mr Whitbread, Stad Croesywaun. Ganwyd Victoria nos Sul y Pasg, a daeth adref atynt y dydd canlynol i wneud ei lle ar yr aelwyd, ond fe'i cymerwyd hi oddi wrthynt yn frawychus o sydyn.

TAITH NODDEDIG YR EISTEDDFOD. Un ffordd i godi arian i Gronfa Apêl Waunfawr a Chaeathro yw cymryd rhan yn y teithiau cerdded o amgylch ffin dalgylch yr Eisteddfod ar ddydd Sadwrn, 26 Mehefin. Gellir dewis rhwng teithiau lleol fel o'r Faenol i Abergwyngregyn; taith fynyddig o Ryd-ddu i Borthmadog; llwybrau arfordirol rhwng Nefyn a Phen-y-groes neu ar hyd Lôn Eifion a Lôn Las Menai, rhwng Pen-y-groes a'r Faenol. Bydd cyfanswm yr arian nodd i yn gyfraniad i'r apêl leol. Gellir derbyn manylion llawn trwy gysylltu â Clive James, Hafan, Caeathro: ffôn 677438.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

LLONGYFARCHIADAU i Richard Llwyd Jones, Y Ddôl am gipio cadair Eisteddfod Penrhyncoch, Ceredigion. Ei dasg oedd llunio chwe englyn ar gyfer pobl amlwg y m myd chwaraeon. Testun wrth ddant 'Golygydd Chwaraeon' yn amlwg.

CLWB BRO BETHEL. Cafwyd cyfarfod difyr iawn unwaith eto yn festri Cysegr ddydd Mawrth, 6 Ebrill yng nghwmni'r Prifardd Selwyn Griffiths. Croesawyd Mr Griffiths gan y Llywydd, y Parch Gwynfor Williams, a chafwyd orig ddifyr ganddo yn sôn am ei lyfrau o farddoniaeth i blant a'r hwyl y mae yn ei gael yn chwarae hefo geiriau. Roedd yr aelodau i gyd wrth eu bodd yn rhyfeddu at Goron Llanrwst 1989, a enillwyd gan Selwyn am ei gerdd 'Arwyr'. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan leuan Williams.

Taith ddirgel i xxxxxxxx fydd cyfarfod mis nesaf, a hynny ar ddydd Mawrth, 4 Mai. Edrychir ymlaen at brynawn difyr arall.

Y NEUADD GOFFA. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor adroddodd y Cynghorydd H.P. Hughes ei fod wedi cyflwyno cais y pwyllgor am grant o Gist Gwynedd i atgyweirio'r Neuadd mewn pryd a bod y rhagolygon y ceir y grant yn dda. Gobeithir bod wedi gosod ffenestri a drysau newydd, atgyweirio'r system wresogi a'r to cyn y gaeaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor nos Fawrth, 11 Mai am 7.00 o'r gloch.

ADRAN YR URDD. I ddiweddu tymor prysur cafwyd noson ddifyr iawn ar 24 Mawrth yng nghwmni Bethan Williams. Adroddodd am ei thrip i Ghana yr haf diwethaf a thrwy gyfrwng fidio a sgwrs dysgodd y plant am y wlad a'i phobl. Roeddynt yn sylweddoli mor wahanol yw eu bywyd hwy yma yng Nghymru o'i gymharu â phlentyn yn Ghana.

Diolch yn fawr iti, Bethan, am ddod atom. Roedd y plant wedi mwynhau'n arw.



Carwyn, Phoebe, Catrin ac Aaron Gwyn. Enillwyr Celf Sir yr Urdd.

Aeth 9 o fechgyn i chwarae pêl-droed yn Nhwrnament yr Urdd nos Fercher, 31 Mawrth. Er curo 2 gêm, cael 2 gêm gyfartal a cholli un gêm, nid oedd hyn yn ddigon da i fynd a nhw drwodd i'r rownd gyn-derfynol. Da iawn chi am eich ymdrech hogia.

Pob lwc i dîm pêl-rwyd yr Adran fydd yn cynrychioli Eryri yn y gemau cenedlaethol yn Aberystwyth ar 24 Ebrill.

Daeth llwyddiant i'r canlynol

yng Nghystadleuaeth Celf Sir yr Urdd. Cafodd Aaron Gwyn gyntaf am ffotograffiaeth dan 12 oed a cyntaf am graffeg cyfrifiadurol; Carwyn Jones 3ydd am gyfres o ffotograffiaeth; Catrin Jones 3ydd am addurno ffabric dan 12 oed a Phoebe Hunter 3ydd am waith creadigol 3D dan 10 oed.

Cafodd eu gwaith fynd ymlaen i'w feirniadu yn y Genedlaethol a chafodd Aaron Gwyn 3ydd am ei ffotograffiaeth. Ardderchog Aaron.



Tîm pêl-rwyd yr Urdd. Bethel fydd yn cynrychioli Eryri yn Gemau Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth ar 24 Ebrill.



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN VSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Bydd ei waith yn cael ei arddangos yn Eisteddfod Môn.

Pob lwc i'r holl aelodau sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn ar ddiwedd mis Mai. Rydym yn bwriadu cynnal cyngerdd o eitemau'r plant cynradd a'r Uwch Adran nos Fercher, 26 Mai. Bydd hyn yn gyfle i bobl y pentref glywed a chefnogi'r talent lleol. Bydd mwy o fanylion yn y siopau lleol yn nes at yr amser.


PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI 2005. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i sefydlu Pwyllgor Apêl Bethel, Llanddeiniolen a Seion yn y Neuadd nos Fercher, 21 Ebrill.

Etholwyd Richard Llwyd yn llywydd; Gareth Jâms yn ysgrifennydd a Cathy Bell yn drysorydd. Adroddwyd fod targed o £16,000 i blwyf Llanddeiniolen ond, gyda chyfraniad hael y Cyngor Cymuned, mai dim ond £10,000 sydd angen i'r pentrefi unigol ei godi, gyda tharged o £3,020 i Fethel, Llanddeiniolen a Seion.

Mae cyfraniadau eisoes wedi dechrau dod i mewn ond penderfynwyd agor yr ymgyrch codi arian drwy wahodd y pentrefwyr i gyfrannu drwy 'Rodd Cymorth'. Bydd y cynllun yma yn golygu y bydd yr Eisteddfod yn derbyn 28c ar ben bob £1 a gyfrannir. Bydd y ffurflen, a dosbarthwyd gyda rhifyn Ebrill o'r Eco yn cael ei dosbarthu o ddy i ddy yn ystod mis Mai a bydd y dosbarthwyr yn galw i gasglu'r cyfraniadau ymhen yr wythnos o'u dosbarthu.

Yn ogystal â'r ymgyrch yma bwriedir cynnal wythnos o weithgareddau amrywiol o 21 i 25 Mehefin ynghyd â gweithgareddau amrywiol dros dymor y gaeaf.

Cynhelir cyfarfod i drefnu'r wythnos am 7.30 o'r gloch nos Fercher, 19 Mai. Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i'r cyfarfod.



LLWYDDIANT CEFN.

Llongyfarchiadau i Robin Jones am gael y wobwr gyntaf am ei ddarlun 2D ac ail wobwr am ei waith 3D yn Eisteddfod Sir yr Urdd ac i Hanna Gwyn am gael cyntaf ac ail am ei gwaith addurno ffabric a cyntaf ac ail am ei phrintiau lliw.

Bu Hanna yn llwyddiannus yn y Genedlaethol drwy gipio'r wobwr gyntaf am ei gwaith addurno ffabric a'r wobwr gyntaf am ei phrint lliw.

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Dafydd a Heulwen, Cefn Coch; Arnold a Myra, Llechwedd; y plant a'r teulu o ardal Tregarth a Sandycroft, ddiolch i'w llu ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli mam a nain annwyl.

Diolch arbennig am y cardiau, llythyrau, galwadau ffôn, a'r rhoddion hael o £338 a dderbyniwyd yn ddiolchgar i Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Elwyn ac Alwena Williams, Llanddona ddatgan eu gwerthfawrogiad ddiffuant iawn am y paratodau a wnaethpwyd ar eu rhan, gan y teulu, tuag at ddathliad arbennig ar 28 Mawrth. Diolch am y rhoddion gwerthfawr, y cardiau o bell ac agos, a'r galwadau ffôn. Cyfarchwyd hwy ar yr achlysur gan Irfon Thomas, Buarthau, Llanrug, cefnder Wena.

Aeth deugain mlynedd heibio Ers i chwi fynd i'r Llan
I uno mewn priodas,
A chlywed cloch y Llan.

Y gloch a alwodd yno
Eich ffrindiau bob yr un,
I dystio cwlwm cariad
Ac uno dau yn un.

A heddiw ein dymuniad
A fo i chwi eich dau
Gael Priodas Ruddem hapus,
Ac iechyd i fwynhau.

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, 19 Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod Ebrill gyda sgwrs gan Geraint Gruffudd, y garddwr o Rosgadfan. Cafwyd sgwrs gartrefol ganddo, a bu'n arddangos potiau o flodau hyfryd. Diolchwyd iddo gan y llywydd, Buddug Jones a chan Ann Lloyd. Pleser oedd croesawu Gwerfyl (Lewis gynt) sy'n byw yn Lerpwl atom am y noson.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Yn ystod tymor y Grawys daeth y Canon Idris Thomas o Drefor i gynnal y gwasanaethau, a oedd yn ein paratoi a'n hatgoffa o wythnos fawr y Pasg.

Mr Derec Jones, Llanberis fu'n ein harwain yn yr Awr Dawel neu'r Awr Olaf ddydd Gwener y Groglith, a oedd yn hynod effeithiol i'r diwrnod yma.

Boro'r Pasg bu'r Parchedig Jeffrey Hughes, Caernarfon yn gweinyddu'r Cymun Bendigaid. Diolch iddo am ein cyflwyno i amser o obaith a llawenydd Sul y Pasg.

Y bedd gwag a Mair Magdalen a'r disgyblion, a chwaraeodd ran mor amlwg yn y cyfnod yma, oedd thema athrawon a phlant yr Ysgol Sul eleni. Diolchwn iddynt am baratoi ac am gyfleu inni drwy ddarllen a chanu am lawenydd y dydd.

Nos Lun, 5 Ebrill, Mrs Barbara Allen ddaeth i sgwrsio yng Nghymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist. Siaradodd am ei chyfnod fel athrawes yn ninas Lerpwl yn y 50au a'r 60au - cyfnod hollol wahanol i'r un presennol yn amlwg - un hapus a mwy hamddenol. Diolch i Mrs Allen am noson

ddaeth ac atgofion yn ôl i ninnau hefyd.

CYMANFA'R PRESBYTERIAID.

Dydd Sul, 2 Mai, cynhelir Cymanfa Dosbarth Padarn yn y Capel Coch, Llanberis am 2.00 ac am 6.00 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Croeso cynnes i bawb. **DOSBARTH NOS.** Nos Iau, 15 Ebrill, daeth y dosbarth nos a gynhaliwyd yn Nhŷ Elidir i ben. Yr athro oedd Mr D. Whiteside Thomas, Llanrug, a mwynhawyd yn fawr yr agweddau o hanes lleol a gafwyd yn ei gwmni, gan yr holl aelodau.

LLONGYFARCHIADAU cynnes i Mrs Grace E. Maxwell, 24 Rhydfadog, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 ar 13 Ebrill.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Mrs Mair E. Morris, 23 Rhydfadog, a Miss Nancy Owen, 4 Rhydfadog yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Mr Jack Owen, Caernarfon.

NOSON GWYLLWYR S4C. Cynhelir cyfarfod nos Iau, 29 Ebrill am 7.00 o'r gloch yn y Mynydd Gwefru, Llanberis. Ceir rhagflas o gyfres newydd, sef hanes Deiniolen, a ddarlledir ar 12 Mehefin.

LLONGYFARCHIADAU i bawb a gymerodd ran yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanrug, yn enwedig Daniel Ellis, 3 Hafod Oleu a ddaeth yn ail ar yr unawd canu yn y Sir.

Daeth Daniel yn ail hefyd mewn cystadleuaeth corn ym Methesda allan o 28 o gystadleuwyr a daeth Liam, ei frawd, yn bumed yn yr un gystadleuaeth. Llongyfarchiadau hefyd i'r ddau am wneud mor dda yn eu arholiadau cyn. Da iawn chi. Maent yn cael eu hyfforddi gan Gavin Saynor a Hefin G.

Jones, ac mae Anti Ann o Lanrug yn hyfforddi Daniel i ganu.

Mae rhai o blant y pentref wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Sioe Arbennig iawn RYGARUG, sef Copa-Capan, a oedd yn sioe benigamp. Da iawn chi, blantos.

Mae'n braf gweld y plant ifanc yma'n gwneud yn dda ac yn gwneud eu gorau. Diolch i Lyndsey Fôn am fynd i drafferth i'w hymaelodi ar gyfer yr Urdd, er ei bod yn brysur iawn yn ei swydd newydd fel athrawes.

DYMUNA Mrs Lilian May Roberts (gynt o Ddeiniolen), chwaer y ddiweddar Mrs Jennie Morris Jones a gwraig y diweddar Mr Dilwyn Roberts, Mynydd Llandegai a'r meibion, ddiolch i ffrindiau a chymdogion am y blodau, y llu cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd. Diolch yn arbennig i Philip Jones, gweinidog o'r Gynulleidfa Gymraeg Tystion Jehofa Caernarfon am ei wasanaeth ac i Mr Pritchard, Llanberis am drefnu'r gwasanaeth.



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:

- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575

ymholiadau@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271



B-J-GLAZING Penisarwaun

Gwydro a Thrwsio Ffenestri

(rhan o fusnes teulu a fu'n gosod gwydr a ffenestri am dros 80 mlynedd)

- Trwsio a newid ffenestri
- Trin unedau gwydr dwbl lle mae'r sêl wedi torri neu yn niwlog
- Dŵr yn treiddio neu ddrafft
- Cloeau a hinges ddim yn gweithio'n iawn
- Amcangyfrif a chyngor yn ddi-dâl
- Gwasanaeth gwydro 24 awr

Ffôn 07984 354783

neu (01286) 871774 (ar ôl 1 Mai 2004)

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk


Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

CHWILOTA

'Nid yw'r Graig yn Deall Saesneg'



Rhoddwyd cryn sylw dros y Rmisoedd diwethaf i gysylltiadau teuluoedd o'r fro â'r America, ac y mae'r wybodaeth yn parhau i ddod i law. Unwaith eto, daeth Rhian Williams o Gaerdydd, i gysylltiad gyda chopi o hysbyseb am y 'Susquehanna Slate', a oeddystal â'r llechen Gymreig. A dyna wrth gwrs, un o'r prif resymau pam y mudodd cymaint o deuluoedd o'r ardaloedd hyn i'r America. Mae gwythien werthfawr o lechfaen yn



rhedeg drwy fynyddoedd yr Appalachian, ac yno y tyrrai niferoedd helaeth o Gymry i geisio bywyd newydd yn ystod y bedwaredd ganrif yn ymtheg. Mae'r chwareli llechi yn ardal West Bangor yn edrych yn debyg iawn i'r olygfa yn Chwarel Glynrhonwy, Llanberis. Rhigwm oedd yn boblogaidd iawn yn yr ardal honno yn yr hen amser oedd:

'Rhaid cael Cymry i daro'r garreg, Nid yw'r graig yn deall Saesneg.'

Un arall a fudodd i ardal Delta-Cardiff i weithio yn chwareli llechi enwog y Peach Bottom oedd David Roberts o Ddiniolen a briododd â Mary Elizabeth Thomas. Ymfudodd hi i'r America tua 1902-03. Roedd ar un cyfnod yn cadw post ym Mhenisgarwaun. Gadawodd chwiorydd a brawd ar ôl yng Nghymru. Lladdwyd y brawd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Efallai fod rhai o ddisgynyddion y chwiorydd yn parhau i fyw yn yr ardal heddiw.

Daeth cais hefyd am wybodaeth ynglŷn ag Ann Roberts, er nad oes cysylltiadau uniongyrchol â'r ardal hon. Merch oedd i weinidog gyda'r Beddyddwyr yn ardal Dyffryn Nantlle. Ymfudodd hithau i'r America tua dechrau'r ganrif ddiwethaf. Priododd yn gyntaf â gŵr o'r cyfenw Evans, a bu'n byw yn Connecticut, lle roedd y gŵr yn delio mewn baco. Wedi marw'r

gŵr cyntaf, ail-briododd â gŵr a'r cyfenw Owens, gan symud i Efrog Newydd. Yno y bu farw tua 1943.

Os oes gwybodaeth gennych am y teuluoedd hyn, yna cysylltwch.

Taith Gerdded Ryfeddol

Tra'n catalogio un o gasgliadau'r Archifdy yng Nghaernarfon deuthum ar draws hanes y daith ryfeddol hon gan fferyllwyd o Borthmadog ar y degfed o Fehefin 1889. Roedd W. E. Morris y fferyllwyd, yn hannu o deulu Tyddyn Badin, Llanddeiniolen. Edward Jones (1808-1882) a'i wraig Catherine (1812-1848) oedd ei daid a'i nain.

Ar y Llungwyn yn 1889 penderfynodd W. E. Morris ymweld ag arddangosfa geffylau a oedd yn cael ei chynnal yng Nghaernarfon. Teithiodd yno ar y trên o Borthmadog, gan gyrraedd erbyn tua deg o'r gloch y bore. Wedi treulio peth amser yng Nghaernarfon, penderfynodd ymweld â'r teulu yn Llanddeiniolen, ac felly cerddodd i Dyddyn Badin. Yn anffodus, docodd Morris Williams a'i wraig (perthnasau iddo) ddim gartref, felly, ymlaen ag ef am Dros y Wacn ble roedd cefnder ci fam yn byw. Ar ôl cael tamaid o ginio yno, dyma gychwyn am adref tua hanner awr wedi un y prynhawn. Cerddodd drwy Frynrefail ac ymlaen i Lanberis, gan ddringo trwy'r Bwlch -yr oedd y Pass yn anodd iawn i'w gerdded- a chyrraedd Pen y gwryd erbyn chwarter wedi pedwar. Disgyn wedyn at Lyn Dinas, cyn troi am Nantmor a'r Ddolfriog, a chyrraedd Porthmadog am ugain munud wedi wyth y nos. Amcangyfrifodd ei fod wedi cerdded dros ddeg milltir ar hugain y diwrnod hwnnw.

Mae'n amlwg fod hwn yn gerddwr rheolaidd. Mewn cofnod arall mae'n sôn am gerdded i Ryddu a thros y bwlch i Nant Gwynant cyn dychwelyd i Borthmadog. Roedd hefyd yn cerdded i gopa Moel y Gest yn ystod misoedd yr haf, a hynny cyn agor ei siop ym Mhorthmadog.

Oes gan ddarllenwyr eraill gofnodion o'u hynafiaid yn cerdded pellteroedd i wahanol ddigwyddiadau neu ar achlysuron arbennig?

Teulu Jeffrey a Ffatri Wlân Bedwargoed

Beth amser yn ôl adroddais fod llu o ddisgynyddion teulu Jeffrey yn parhau'n yr ardal a thu hwn, a'r mis hwn, daeth llond parsel bron o wybodaeth i law gan Huw Roberts, Pwllheli (Llanberis gynt), sydd hefyd yn hannu o'r un cyff. Mae yma doreth o wybodaeth ynglŷn â chysylltiadau teuluol nad oes posibl eu

hatgynhyrchu i gyd ar ddalennau'r 'Eco'; ond mae'n amlwg fod yma waith ymchwil manwl i wahanol ganghennau o'r teulu.

Mae'n cychwyn drwy gyfeirio at y ffaith nad yw'r enw 'Jeffrey' mor anghyffredin â hynny, gan fod cofnod o'r enw yn ymddangos yn Llangian (1565), Nefyn (1681) Caerhun (1667) a Llangristiolus (1661). Daw'r enw hefyd i'r amlwg yn ardal y chwareli llechi - Jeffrey o Laniestyn - gan gofio fod Laniestyn i'w gael ym Môn hefyd.

Roedd Robert Jones (Jeffrey) yn fab anghyfreithlon i Robert Jeffrey, Pwll y March, Llanaelhaearn. Priododd yn 1794 â Martha William, merch William a Catherine Hughes, Bodgarad, Llanwnda. Ganed eu mab hynaf yn Llanaelhaearn, a saith eraill o blant yn Laniestyn. Symudodd y teulu'n ddiweddarach i Fwlch y Groes, Clegir. O'r plant hyn y mae holl deuluoedd y Jeffrey yn ardal yr 'Eco' yn deillio, ac mae'n amlwg fod rhai ohonynt wedi dechrau mabwysiadu'r enw 'Jeffrey' er mai Jones oedd eu cyfenw. Ar lafar, mae'n debyg fod eu tad yn cael ei alw'n Robat Jones Jeffra, neu hyd yn oed yn Robat Jeffra, ac i'r enw lynu.

Ganed Thomas Robert Jeffrey yn 1802, ac ef oedd hen daid Huw Roberts. Priododd ag Alicia Davies (1803-48) Pen Orffwysfa bach, Llanberis.

Ganed Robert Roberts yn 1806. Ymsefydlodd yn Dorlan Goch, Deiniolen, ac yr oedd ganddo gysylltiad â Melin Bedwargoed. (gweler yr hanes isod).

Ganed Catherine yn 1808 a phriododd â William Morris. Roeddent yn byw yn Bryn Bela, Fachwen. Soniwyd am eu disgynyddion hwy eisoes mewn rhifyn blaenorol o'r 'Eco'.

Ganed Owen yn 1812. Roedd yn byw yn Craig y Fachwen ac ef oedd taid y diweddar O.M. Roberts, Llanrug a Chonwy. Derbyniwyd gwybodaeth am y gangen hon o'r teulu hefyd mewn rhifyn blaenorol o'r 'Eco'.

Roedd Ffatri Wlân Bedwargoed, neu Felin Bedwargoed, yn bod o leiaf ers tua 1844. Priododd Robert Roberts, Dorlan Goch, â Martha Rowland. Yr oedd eu merch, Margaret Roberts yn briod â Hugh Hughes, yn wreiddiol o Fodwrog ym Môn; gwneuthurydd gwlan wrth ei alweddigach. Dyma'r teulu a fu'n cadw'r ffatri wlân ym Medwargoed.

Fel y cynyddai'r farchnad wlân, teimlid fod y daith ar draws y llyn o Fedwargoed i Lanberis yn bell, ac erbyn yr 1880'au roedd trcnau yn dod â glo rhad i ardaloedd y chwareli. Sefydlwyd gwaith nwy ym mhentref Llanberis, a phenderfynwyd sefydlu ffatri wlân yn y pentref. Roedd yn adailad deulawr ar safle maes parcio ac adeilad Clwb y Llynges Brydeinig presennol. Roedd gan y teulu siop ar stryd fawr y pentref hefyd, sef Bedwargoed House.

Ond wedi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a'r streiciau glo, aeth pris nwy yn ddrutach, ac yr oedd cystadleuaeth gan gotwm rhatach yn tanseilio'r fasnach wlân ac aeth llawer cwmni gwlan i'r wal. Cau fu hanes ffatri Bedwargoed yn Llanberis hefyd, o bosibl tua canol i ddiwedd y 1920'au. Fe'i prynwyd gan Syd ac Eric Wakeham a'i thro'i'n sinema - ond stori arall yw honno.

Crynodeb yn unig sydd yma o'r toreth gwybodaeth am y teuluoedd a gefais gan Huw Roberts. Mae'n gorffen drwy ymddiheuro 'am roi cymaint o waith darllen i ti.' Pleser fu'r cyfan, a mawr yw fy niolch am gymaint o wybodaeth. Trueni na chawn lith mor swmpus a diddorol yn fisol gan wahanol ddarllenwyr!

Merch yn Cynganeddu

Does dim byd yn anghyffredin yn hyn bellach, ond daeth yr englyn hwn i Bob Owen, Croesor i'r amlwg yn ddiweddar:

Ei grefydd yw hen ysgrifau - a'i nef
Sydd yn niwl hen oesau;

A dygyfor trysorau

I'w lon fryd, o ddalen frau.

Enw'r awdur yw Llinos Rhythallt, sef Florence Thomas (Hughes ar ôl priodi). Fe'i ganed yn 1892 ym Mron y gaer, Penisarwaen. Ble tybed y dysgodd gynganeddu?

* * *

A dyna gau pen y mwdwl am y tro. Os oes unrhyw un â gwybodaeth ychwanegol am unrhyw un o destunau'r mis hwn, neu os oes gennych ymholiad ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r 'Eco' yna cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

DRAENOG

Ar gae pêl-droed Eithin Duon mewn gêm ddiweddar rhwng Llanrug a Deiniolen. Fel y mae safonau'n gostwng!

Doctor Dŵr ar ei flagla'

Yn trio'i ora'

I groesi'r cae - yn ara'

- at un ar lawr yn diodda'.

Dau athro; dau gawr,

Dau anferth o fawr

Ro'i gyngor i'r criadur ar lawr:

'Dos, cropian i gwr

Yr hen Ddoctor Dŵr,

Rhag ofn i ti farw

Cyn iddo fo gyrra'dd.'

A dyna fu hancs

Digwyddiad go ryfadd!

Mac Draenog yn deall mai hen, hen, hen chwaraewr o Lanrug a fu'n llygad dyst i'r 'perfformiad' hwn. Aeth adref â dagrau'n llenwi ei lygad - nid yw'n siŵr a'i chwerthin a'i crio roedd o! Does ond gobcithio fod y chwaraewr o Ddiniolen wedi gwella, a bod y Doctor Dŵr bellach wedi ei ryddhau o'i flaglau ac y gall symud yn gynt ar draws y cae o hyn ymlaen.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Cywiriad

Rhifau Ffôn yr Heddlu yw:

0845 6071001 (Cymraeg) a

0845 6071002 (Saesneg)

ac nid fel a gyhoeddwyd yn Eco'r Wyddfa Fis Ebrill.

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra.

* * *

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 13 Ebrill. Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Cyngorydd Richard Ll. Jones a llywyddwyd gan yr Is-gadeirydd Gwilym Williams. Deallwyd bod y Cyngorydd Aled Green yn yr ysbyty a phendefynwyd anfon gair i ddymuno gwellhad buan iddo.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mawrth 2 fel rhai cywir.

Cyflwynwyd mantolen ariannol 2003/2004.

Materion o'r cofnodion

Cyfarfodydd cyhoeddus i gefnogi Eisteddfod Eryri a'r cylch 2005. Mae cyfarfodydd Penisa'rwaun a Bethel eisioes wedi eu trefnu. Penderfynwyd atgoffa cynrychiolwyr y pentrefi craill erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

Derbyniwyd ateb 'Euro DPC' ynglŷn â'r hysbyseb am dderbynnwyd a chopi o'u hateb i Alun Ffred Jones AS. Amlygwyd anfonlondcb o'u hagwedd at yr iaith a phenderfynwyd cysylltu â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Er nad oes gan y Bwrdd ddylanwad dros gwmnïau annibynnol, cfallai y bydd y math yma o achos yn ddylanwad i'r llywodraeth ystyried pwerau ehangach i'r Bwrdd.

Siomedig hefyd oedd ateb I.S.C.(Clogwyn) eu bod yn benderfynol o symud, maes o law, o Ddeiniolen i Landygai.

Darllenwyd ateb hirfaith yr Heddlu yn ceisio cyfiawnhau symud y ganolfan ateb o Gaernarfon. Trafodwyd y mater yn fanwl gan amlygu'r canlynol:

- Bod gwybodaeth leol yn bwysig pan yn derbyn galwadau argyfwng, (cyfeiriwyd at y gwasanaeth brys a yrrwyd i Lanfres yn lle Llanberis beth amser yn ôl);
- Bydd un hacn leol o gyflogaeth yn diflannu;
- Deallwyd, yn y trafodaethau diweddar gyda'r Heddlu, mai gweithredu'n gymunedol, tebycach i'r hen drefn, yw eu bwriad. Bydd symud y ganolfan ateb yn hollol groes i hyn.

Golau cyhoeddus ger Gors Bach. Cyflwynwyd ateb Cyngor Gwynedd y gellid gosod lamp ger y groesffordd pe bai'r Cyngor yma yn cyfrannu at y gosodiad. Penderfynwyd archebu'r golau.

Ffynnon Gegin Arthur. Gwirfoddolodd y Cyngorydd Phyllis Ellis i gyfarfod â Mr Dewi Parry o Gyngor Gwynedd ar y safle. Gwrthodwyd amcangyfrif Menter Fachwen o £100 am drwsio mainc Clwt y Bont a phenderfynwyd gofyn am bris i Sae'r Coed lleol a phris hefyd am ail osod scdd Penisa'rwaun.

A4244 Bryn'rfaill i Groeslon Tŷ Mawr. Cyflwynwyd ateb Gwynedd

na ddarperir llwybrau troi i'r dde ar groeslon Perthi a'u haddewid i adolygu'r arwyddion a'r marciau ffordd.

Derbyniwyd ateb Gwynedd bod goleuadau ar faes parcio Tŷ Elidir yn cael eu hystyried.

Cyflwynwyd ateb Prif Weithredwr Gwynedd yn gwerthfawrogi sylwadau'r Cyngor ar y gwasanaethau yn ystod yr eira ym mis Chwefror.

Gohebiaethau eraill

Dywedodd y Cyngorydd Dafydd Morris bod papur yn cael ei chwythu i bobman wrth i'r cerbyd ail-gylchu ei gasglu yn Ninorwig - llythyr i'r Adran berthnasol.

Dywedodd hefyd bod drain yn tyfu allan i'r ffordd rhwng Pont Fawr ag arosfan bws Rhydfadog ac nad yw'r peiriant sgubo'r ffordd yn mynd i Ddinorwig o gwbl - llythyr i'r Adran Prifffordd.

Nos Sadwrn diwethaf roedd rhywrai wedi codi gwliau'r draeniau ar hyd Stryd Fawr, Deiniolen. Rhoddwyd hwy yn ôl gan y Cyngorydd Dafydd Morris, o ran diogelwch, ond cawsant eu codi eilwaith yn hwyrach yr un noson.

Cyflwynodd y Cyngorydd Phyllis Ellis gŵyn ar ran y trigolion bod gor-yrur yn digwydd ar hyd Allt Tan Coed, Penisa'rwaun. Yr oedd hefyd wedi paratoi cynllun yn dangos y lleoliad mwyaf effeithiol i ramp. Dywedodd y Cyngorydd Pat Larsen bod angen ramp hefyd ar Lôn Perthi, cyn troad Lloc, rhwng Winllan a'r Pentref. Ceisiadau i Gyngor Gwynedd am y ddwy ramp. **Biniau Baw Cwn**

Gofynnir i'r Cynghorwyr restru lleoliadau sy' angen y biniau yma gan bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu gosod mwy ohonynt. Derbyniwyd cyfod daflenni 'Pwy ydy Pwy' Gwynedd.

Derbyniwyd, gyda diolch, ddau docyn oddi wrth Rygarug i'r sioc yn Theatr Seilo Nôs Sadwrn.

Delweddau Gareth Roberts Derbyniwyd ei gyflwyniad cynhwysfawr ac amlygwyd ei ddiddordeb yn hanes y gymuned ac yn y bwriad o hel hanes cysylltiedig i lwybrau'r ardal.

Penderfynwyd hysbysu'r Grŵp Cymunedol yn y gobaith y gellid ei wahodd i'w cyfarfod.

Cynllunio

Nid oedd gwrthwynebiad i geisiadau a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad i Ty'n Llidiart, Rhiwlas; Estyniad i Bron Eilian, Dinorwig; Estyniad i'r Porth a chodi Modurdy yn Ael y Bryn, Carreg y Gath, Rhiwlas; Estyniad i Ty'n Pwll, Bethel; Mynedfa newydd i Buarth y Braich, Deiniolen; Addasu adeilad allanol i ddefnydd hyfforddiant a storfa yn Tal y Waen, Deiniolen.

Cais a wrthodwyd gan Wynedd: codi annedd ar lain o dir ger Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Gwilym Williams at Gynllun Unedol Gwynedd a'r ffiniau cynllunio newydd. Eglurwyd bod ail ddrfft y cynllun ar y gweill a chaiff y Cyngor rybydd pan y bydd yn barod i'w drafod.

Gofynnodd y Cyngorydd Richard Llwyd Jones beth yw bwriad Gwynedd ynglŷn â Thai Fforddadwy, a ydynt yn chwilio am dir datblygu ar gyfer rhain, ac a oes rhaid i'r tir hwnnw fod o fewn y linell gynllunio bresennol? Penderfynwyd gofyn i Adran Gynllunio Gwynedd.

Adroddiadau

Cafwyd adroddiad o'r Grŵp Cymunedol gan y Cyngorydd Phyllis Ellis:

Trefnir i gael map o lwybrau'r gymuned gan y Cyngorydd Huw P. Hughes erbyn eu cyfarfod nesaf. Maent yn awyddus i gario ymlaen i ddatblygu llwybrau a chronico hanes yr ardal. Cysylltodd Miss Ellis â Mr Selwyn Williams, Prifysgol, Bangor i ofyn a fyddai myfyrwyr â diddordeb yn y prosiect, ac roedd yn swno'n galonogol. Ceir gwybodaeth yn ôl gan y Cyngorydd Len Jones. Bydd Len Jones hefyd yn cysylltu â Mr Geraint George yn y Brifysgol. Gofynnir hefyd i Mr Ifan Llewelyn Jones am gymorth Mantell Gwynedd.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf - 4ydd o Fai.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch


DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON

LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:

Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Gigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau mawr i ddau gwpwl sydd wedi dyweddio yn ddiweddar: Gethin a Jane, Berthgylid, Stad Minffordd a Nia Gwawr a Gwyn ab Elwyn, 43 Maes Meddyg, Caernarfon (a 14 Minffordd gynt). Pob dymuniad da i chi.

PRIODWYD Arwyn Roberts a Kerry, Stad Minffordd, mewn gwasanaeth yn yr Eidal yn ddiweddar. Roedd y teulu agos gyda'r pâr ifanc yn dathlu. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iddynt.

DIOLCHIADAU. Dymuna Cledwyn Jones, 56 Glanffynnon ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddo gan ei deulu a'i ffrindiau ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

DYMUNA Mark, Gwyndaf a Meinir Williams, a'r teulu ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau a geiriau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli Anna, gwraig annwyl iawn i Mark, mam dyner Aaron a Cara, a merch yng nghyfraith Gwyndaf a Meinir, yn sydyn iawn ar 21 Mawrth.

Diolch hefyd am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at yr Ambiwylans Awyr.

BRYSIWCH WELLA. Da yw deall fod Mr Hywel Morris, Clydfan, Ffordd Glan Moelyn adref o'r ysbyty ac yn gwella.

Hefyd Mrs Bet Jones, Lyndale.

Dymunwn wellhad buan i unrhyw berson sydd ddim yn dda eu hiechyd.

LLONGYFARCHIADAU. Yr oedd yn bleser mawr i ni yn Llanrug gael llongyfarch Mrs Annie Jones, Eillionwy, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed yn ddiweddar.

Annie Williams ydoedd cyn iddi briodi â Mr Inigo Jones o Gaernarfon. Mae ei gwreiddiau yn ddwfn yn yr ardal, ei ffyddlondeb i Gapel Bryngwyn ac yn aelod o Blaid Cymru er y cychwyn, gyda llaw agored i helpu pawb a phopeth ac yn cymryd diddordeb ym mywyd y pentref. Gobeithio y cawn ddathlu ei chanfed y flwyddyn nesaf a dweud 'O, frenhines, bydd byw byth.'

YR YSGOL GYNRADD

Dymunwn yn dda i dîm pêl-droed y genethod yng nghystadleuaeth Genedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth ddydd Sadwrn, 24 Ebrill.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed yr hogia am ymdrechu mor galed yn Nhwrnament Pêl-droed Sir yr Urdd ar gaeau Treborth ddiwedd y tymor.

Llongyfarchiadau i Robbyn Brinie, Bl.1 ac i Anna Wyn, Lowri Haf ac Emma Roberts. Daeth eu gwaith celf a ffotograffiaeth yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Sir yr Urdd, ac erbyn hyn mae wedi mynd i gael ei feirniadu yn Genedlaethol.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Gillian Owen yn ei phroffedigaeth o golli ei mam yng nghyfraith yn ddiweddar. **LLONGYFARCHIADAU** i'r cigydd, Wavell Roberts, ar ennill gwobr am y sosejis gorau yng Ngogledd Cymru. Fe gafodd y gŵr o Lanrug lwyddiant mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu gan 'Hybu Cig Cymru'. Fo oedd yn fuddugol yn y categori sosejis traddodiadol gorau ac aeth yn ei flaen i ennill y teitl 'Pencampwr y Pencampwr'. Bydd yn mynd yn ei flaen yn awr i rownd cenedlaethol Cymru.

HOFFAI Bryn a Gwen ddiolch yn fawr i bawb fu mor garedig ar achlysur genedigaeth eu merch, Nel. Diolch yn fawr am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion.

NOSON O GARIOCI. Bydd noson o ganu carioci yn Nhafarn Penbont nos Wener, 14 Mai yng nghwmni Ray am 7.00 yr hwyr i'r teulu cyfan. Bydd yr elw yn gymorth inni at gostau mynd a'r plant i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar Ynys Môn a'r chwaraeon yn Aberystwyth.

NOSON CARIOCI

Mai 14, 2004

am 7.00 o'r gloch

yn

**Nhafarn Penbont
Llanrug**

Elw at gostau

**Ysgol Gynradd Llanrug
yn Eisteddfod Genedlaethol
yr Urdd, Ynys Môn**

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

YSGOL BRYNREFAIL

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Ddiwedd mis Mawrth cynullodd carfan frwdfydig o fyfyrwyr hŷn yr Ysgol yn Ysgol Dyffryn Nantlle i gystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd dros 15oed. Cafwyd diwrnod hwyliog a hynod lwyddiannus. Dyma'r canlyniadau:

Band/Cerddorfa: 1af: Ysgol Brynrefail;

Grŵp Dawnsio Gwerin: 1af: Ysgol Brynrefail;

Unawd merched: 2il: Elin Mai Jones;

Unawd bechgyn: 1af: Huw Foulkes;

Unawd cerdd dant: 2il: Elin Mai Jones;

Unawd pres: 1af: Rhys Hughes;

Unawd pres: 2il: Berwyn Jones;

Dawns stepio: 1af: Anest Eifion

Llongyfarchiadau i bawb - yn cynnwys y rhai hynny na chafodd lwyddiant ar y llwyfan. Braf yw gweld cymaint o'r Ysgol yn mwynhau cystadlu.

Hei lwc i bawb yn y Brifwyl fis Mehefin - dewch draw i Sir Fôn i'n cefnogi!!



Y band buddugol.



Y criw buddugol Dawnsio Gwerin.

Sioe Gerdd 'Gris'

Yn ystod Tymor yr Haf eleni, bwriedir llwyfannu'r sioe gerdd enwog o'r UDA. Rydym eisoes wedi castio'r prif gymeriadau ac mae'r ymarferion newydd ddechrau. Mae nifer o wahanol adrannau yn helpu gyda gwahanol agweddau'r cynhyrchiad, o adeiladu setiau, gwisgoedd, chwarae yn y band ac ati.

Testun balchder i ni fel Ysgol yw gallu croesawu Tammi Gwyn, cyn-ddisgybl o'r Ysgol, a wyneb cyfarwydd bellach ar ein sgriniau ar nosweithiau Sul yn y gyfres lwyddiannus 'Amdani', i roi arweiniad i ni a'n cyfarwyddo yn y cyfeiriad cywir.

Bydd cost cynnal sioe fel hyn yn sylweddol, ac felly os gwyddoch am gwmni neu fudiad

sy'n meddu ar geiniog neu ddwy yn sbar, yna cysyllter â'r ysgol er mwyn i ni gael swniau!!!! Bydd cyfweiliadau â'r prif gymeriadau yn ymddangos yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cwpan Cymru

**Ysgol Brynrefail 6-4 Ysgol
Uwchradd Gŵyr**

Llongyfarchiadau mawr i dîm dan 16 yr Ysgol ar gyrraedd y rownd derfynol wedi gêm mor gyffrous.

Perfformiad campus gan y bechgyn i gyd a'u hyfforddwr, Mr Phil Holland.

Adroddiad llawn a llun o'r tîm yn y rhifyn nesaf.

Bydd y Ffeinal yn cael ei chwarae yn lleol yn erbyn tîm o Wrecsam neu Gasnewydd.



CARPEDI GERAINT OWEN

**GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC**

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Hen Deulu Gors, Clwt-y-Bont

Beth yw'r holl siarad hyn am Glwt-y-Bont? A phaham mae'r hen ŵr yma'n dal i ysgrifennu amdano? Os dyma'r cwestiynau rydych eisiau eu gofyn, gadewch i mi geisio ateb. Er fy mod wedi cael fy magu yn Lloegr, a siarad dim ond Saesneg, mi deimlwn fy mod yn Gymro yn y bon. Ond dylai fod gan bob gwir Gymro gartref, o leiaf gartref ysbrydol, yng Nghymru. Ac felly, oherwydd cysylltiadau fy mhlentynod, fe ddaeth Clwt-y-Bont yn gartref ysbrydol i mi.

Yr wyf eisoes wedi dweud ychydig am fy atgofion o'r lle, atgofion sy wedi aros efo fi am fwy na deng mlynedd a thrigain. Ond rŵan dywedaf rywfaint am bethau yr wyf wedi eu dysgu yn ddiweddarach ynglŷn â'm cefndir teuluol. Yr wyf yn sicr fod gennych chwithau'r darllenwyr hanes yr un mor ddiddorol, ond am y tro dyma dipyn am yr hyn sy'n perthyn i'n teulu ni.

Dewch efo fi felly ar hyd llwybr yr afon tua Chwt Band Deiniolen, gan droi i'r dde a throedio'n ofalus iawn dros y gors sydd o'ch blaen. Os byddwch chwi'n lwcus, fe cllwch ddod o hyd i gerrig gwastad ar y ddaear. Nid oes dim ond y rheini ar ôl o hen dŷ oedd yn gartref teuluol balch. Nid wyf yn gwybod yn sicr pryd y distrywiwyd y tŷ hwn, ond gwn ei fod yno yn ystod y tridegau cynnar. Yn 1910 yr oedd fy mam, Polly Williams, yn byw yno efo'i rhieni a'i brawd. Yn 1920 fe gerddodd o'na i briodi yng Nghapel Disgwylfa, ac wedyn, yn 1923, aeth hi â mi, ei mab cyntafanedig, i'm bedyddio yn yr un capel.

Yr oedd enwau amrywiol i'r tŷ hwn, fel y bydd rhai ohonoch yn gwybod, yn cynnwys 'Y Gors', 'Gors Meurddyn' a 'Gors Meurddyn Pigyn'. Adeiladwyd o tua 1819 gan Harry Hughes, cymcriad lliwgar iawn, y mac llawer chwedl amdano. Yr oedd ganddo nith o'r enw Jane oedd yn wraig i Methusalem Williams ers 1823. Hwyt-hwy oedd yn byw yn y tŷ oddutu 1825. Bu farw Jane yn 1873, yn 75 mlwydd oed, ond arhosodd Methusalem yn yr un tŷ tan 1886, pan oedd yn 86 mlwydd oed, gan gystadlu, mae'n debyg, efo'i gydenw o'r Beibl.

Yr oedd gan Methusalem a Jane bump o blant. O ddisgynyddion Humphrey, yr hynaf, (fu'n athro yn Deiniolen) aeth cangen o'r teulu, sy'n dal i fodeuo, i California, UDA (mwy amdanynt hwy yn y dyfodol, gobeithiaf). Fe anwyd Harry Williams, eu trydydd plentyn, yn 1831. Cymerodd ef



'Gors', Clwt-y-bont, cartref Methusalem Williams. Aeth yn adfail tua 1935.

enw ewythr ei fam, gan ddod yn Harry Hughes (yr ail). Priododd ag Elin Morris, merch William Morris, Tŷ Capel Ysgoldy, a chawsant 9 o blant. (Os oes rhai o deulu'r Morrisiaid yn y fro gadewch i mi wybod), ac un o'i plant nhw oedd Elin Ann, fy nain.

Dysgais hyn, nid trwy fy ngwaith fy hun, ond trwy ymchwil fanwl rhai o'm cyfnithcrodd medrus. Fe gawsom gymorth mawr hefyd gan waith Dr T. Ceiri Griffith o Chwilog. Y mae ef wedi cyhoeddi ei ail lyfr ardderchog am 'Achau Rhai o Deuluoedd Hen Siroedd Caernarfon, Meirionydd a Threfaldwyn'. Os oes gennych chwi, fel myfi, ddiddordeb mewn achau, mi fuasech yn cael boddhad mawr o'r llyfr hwn.

Wrth geisio ail-gysylltu â'm cartref ysbrydol fel hyn, mi es i gyfeiriadau amrywiol. Yn gyntaf, wrth gwrs, daeth i gof atgofion plentyndod, fel y soniais mewn erthygl arall. Trwy hyn cefais ffrindiau newydd, sydd wedi cyfoethogi f'atgofion. Cefais neges yn ddiweddar, er enghraifft, gan Miss Jane Ceridwen Foulkes, Hafod Oleu, Deiniolen, a chael llawer mwy o wybodaeth am Glwt-y-Bont yn yr hen amser. Gobeithiaf ymweld â'r bobl garedig yma yn ystod yr haf.

Trwy fy ymweliadau â Chlwt-y-Bont, yr wyf wedi dod i ddealltwriaeth gwell o'm cefndir. Er enghraifft, pan oedd pedwar ohonom yn mynd heibio i 'Minafon' y llynedd, gan siarad am ymweliadau â Meth, Jane a Moi crs talwm, fe ddaeth Meirion ac Elfrys, sydd ym byw yno rŵan allan o'r tŷ a'n gwahodd i mewn. Cawsom

groeso cynnes ganddynt a chael cyfle i weld y gwelliannau ardderchog a wnaethant i hen gartref Methusalem Hughes (ŵyr i Methusalem Williams). Tra roeddem yn sgwrsio ac yfed te, darganfyddais gysylltiadau newydd rhyngom ni. Yr oedd Elfrys wedi bod yn yr ysgol efo'm cyfnitheroedd, ac yr oedd Meirion yn Ysgrifennydd Band Deiniolen, swydd a lenwodd f'cwyrth Tal o Dinorwig Terrace, am lawer o flynyddoedd.

Gan Mrs Ceridwen Williams, sy'n byw yn Hafan Elan, Llanrug, mi gefais 'Cyfrifon Ariannol Capel Disgwylfa', 1912. Yn y ddogfen hon y mae rhestr o'r cyfoethogion a'r tlodion, oedd wedi cyfrannu at gostau'r capel yn ystod y flwyddyn honno. Rhoddodd fy mam, a oedd yn byw yn 'Gors' amser hynny (18 mlwydd oed) 4s.0d. (20c) a Thaliesin, ei brawd (15 oed) 3s.6d. (17.5c). Cost bugeilio a phregethu yn ystod y flwyddyn oedd £99.4s.6d. Yn wahanol iawn i ddyledion cynyddol heddiw, dim ond £1,000.0s.6d. oedd yn ddyledus ar forgais y capel.

Soniai fy Mam o dro i dro, yn ystod ei halltudiaeth yn Lloegr, am rai o gyfyrdyr John a minnau, nad oeddem yn eu hadnabod. Nid oeddynt yn ddim ond enwau i ni. Ond roeddwn i, gafodd enw Cymraeg ar fy meddyd yng Nghapel Disgwylfa, yn meddwl fod yna ddirgelwch a harddwch arbennig yn yr enwau hynny. Felly daeth awydd arnaf i ddod i'w hadnabod.

Un peth yn unig oedd gennym ni oll i'n cysylltu â'n gilydd, sef hen daid, Harry Hughes (yr ail). Bu farw yn

1902, ac yn awr y mae'n gorwedd ym mynwent Macpelah. Roedd ganddo 25 o ddisgynyddion o'm cenhedlaeth i, a 7 ohonynt eisoes wedi marw. Trefnais aduniad, ac erbyn hyn rydym wedi cyfarfod deirgwaith ac y mae posibilrwydd o gyfarfod eto yn yr haf.

Profiad da iawn i mi oedd dod i'w hadnabod nhw fel hyn. Mae pawb ohonynt wedi bod yn gyfeillgar iawn; er nad oes neb yn dal i fyw yng Nghlwt-y-Bont mae'r mwyafrif yn byw yng Ngwynedd. Ar waethaf fy Seisnigrwydd cynnar mi ges i groeso cynnes ganddynt oll. Ac felly yr wyf yn teimlo rŵan bod gennyf, nid yn unig gartref ysbrydol, ond hefyd deulu croesawus dros ben. Yn lle *Burke's Peerage* sydd heb le i bobl fel y fi, mae'n well o lawer gennyf gyfeillgarwch 'Harry Hughes's Cousinage'.

Gobeithiaf y bydd un neu ddau o'm cyfnitheroedd neu cefndyr ar ôl gweld fy ymdrech i ysgrifennu yn fy ail iaith, yn fodlon deud mwy am ein cefndir yn y Gymraeg rhagorol sy ganddynt hwy. Beth mae'n olygu iddyn nhw fod yn rhan o deulu Harry Hughes? Neu, yn fwy cyffredinol, beth ydyw ystyr bod yn rhan o unrhyw deulu i'r rheiny sy wedi darllen y geiriau yma? Beth am ysgrifennu i ddweud?

O.N. Yr wyf yn dal i fod yn awyddus i glywed gan y rhai sy'n cofio Clwt-y-Bont yn yr hen amser ac, efallai, gweld lluniau a phictiur craill sy'n perthyn i Glwt-y-Bont pan fyddaf yn dod i'r ardal.

Wynn Davies,
46, Boughton Hall Drive,
Chester, CH3 5QQ
(01244) 341047

Cwmni RYGARUG yn perfformio 'COPA

Yn Theatr Seilo Caernarfon ar nos Wener Ebrill 16eg a nos Sadwrn Ebrill 17eg, cynhaliwyd trydedd sioe lwyfan Rygarug, 'Copa Caban.

Cafwyd dau berfformiad ardderchog, gyda'r plant a'r bobl ifanc i gyd – dros 100 ohonynt ynghlwm wrth y cynhyrchiad – wedi gwneud eu gwaith yn wych iawn. Cafwyd cynulleidfia ardderchog y ddwy noson, gyda'r theatr dan ei sang, a nifer wedi dod yn ôl yr eilwaith ar y noson ganlynol.

Eleni, am y tro cyntaf, fe gomisiynwyd sioe wreiddiol o waith Mair Tomos Ifans a Siân Wheway. Mae Mair a Siân wedi cyd-ysgrifennu yn y gorffennol, ond dyma'r tro cyntaf iddyn nhw greu sioe gerdd. Dewiswyd testun fyddai'n cynnwys elfennau helaeth o lèn gwerin a hanes lleol, ac a fyddai'n cyffwrdd rhywfaint ar sefyllfa economaidd y presennol. Wedi llawer o waith ymchwil, daeth y syniad o greu taith mewn amser, mewn Car 'Executive' Gwib (Gwyllt), fyddai'n cynnwys llawer o hen gymeriadau'r fro – o gig a gwacd

a'r tylwyth teg! Wedi penderfynu ar gyfeiriad y stori, dyma fynd ati i greu 10 o ganeuon newydd sbon fyddai'n adlewyrchu a chryfhau yr hanes.

Yn ystod y tri mis yn arwain at y sioe, fe weithiodd y plant a'r bobl ifanc yn anhygoel o galed ym mhob sesiwn Rygarug, yn dysgu caneuon, dawnsfeydd a sgript.

Diolch o galon i bob un o'r tiwtoriaid rheolaidd – Julie a Manon (drama), Gwenda (cerdd), Elena a Rachel (dawns) a Haf (sgriptio) am eu gwaith dygn a chwbl broffesiynol yn paratoi'r aelodau bob wythnos. Diolch hefyd i Angela, Gillian ac Anita fu wrthi'n ddiwyd yn creu gwisgoedd ardderchog i aelodau'r cast ac i Carol oedd yn gyfrifol am goluro'r amrywiol gymeriadau.

Roedd y gwaith cynllunio ynghyd â pharatoi y cynnwys technegol – lluniau symudol, sain a goleuo – wedi golygu oriau o waith a rhaid diolch i Robin, Elis, Robin Ceiriog a Dafydd am eu gwaith a'u syniadau ardderchog. A rhaid peidio anghofio Dyfan a'i waith fel cynhyrchiydd.

Ni fyddai'r un sioe gerdd yn

bosib heb offerynwyr a rhaid diolch i Cai, Ifan a Llion am eu cyfraniad wrth baratoi y gerddoriaeth i gyd ac i Bob yn Stiwdio Gwynfryn am ei hyblygrwydd mewn ymron i 40 awr o waith recordio!

Yn yr un modd ni fyddai'n bosib llwyfannu sioe mor uchelgeisiol heb gymorth tîm cefn llwyfan. Diolch o waelod calon i Len, Manon, Mei, Julie, Gwenda, Carys a'r llu rhieni fu'n barod i roi o'u hamser yn hollol wirfoddol i stiwardio a chynorthwyo i wneud yn sicr fod pawb yn ei le cefn llwyfan. Diolch o galon i Karen Jones Dinorwig am ei help wrth wneud y gwaith ymchwil ac am ei syniadau ac i Bethan Williams am

ei gwaith yn y swyddfa.

Llwyddodd Audra Roberts, y trefnydd, i gydlynw'r cyfan yn ardderchog.

O drefnu ac aildrefnu ymarferion, trefnu'r rhaglen, hysbysebion a noddwyr, props, bysiau, stiwardiaid, tocynnau, cyfarfodydd a bod yn bresennol ym mhob un ymarfer bron iawn... mae'r rhestr yn ddiddiwedd!

Diolch o galon iddi hi – heb ei chymorth ni fyddai Copa Caban wedi gweld golau dydd!

Os hoffech fwy o wybodaeth am weithgareddau RYGARUG neu os hoffech fod yn aelod, cysylltwch â post@rygarug.org neu chwiliwch y wefan www.rygarug.org.



Clawr y rhaglen.

Rhai o'r Ordofigiaid.

Marged Fwyn ach Ifan, a chriw y cwch.



**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU**

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

**LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES**

GARTH MAELOG


51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

CABÀN' yn Theatr Seilo Caernarfon



Mwy o'r cast.



Criw y Car Gwib.



Corws yn ystod y Finale.



R.G. a Llyfreith-Ann.



Rhita Gawr yn cael ei ddal.



Marged Fwyn ach Ifan.

A OES CADEIRYDD? A OES YSGRIFENYDD(ES)? A OES TRYSORYDD? Yn LLANRUG NAG OES

Er gwaethaf galw dau gyfarfod mac ardal Llanrug a Chwm-y-Glo wedi methu sefydlu pwyllgor i lywio gweithgareddau er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau 2005.

Y targed ar gyfer ardal Llanrug a Chwm-y-Glo yw £9,000.

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o addcwidion o gefnogaeth, gyda nifer o fudiadau yn cynnig eu gwasanaeth ar gyfer cynnal cyngerdd er enghraifft. Mae Ysgol Brynrefail a'r Sefydliad Coffa Llanrug eisoes wedi cynnig defnydd a'u hadnoddau ar gyfer gweithgareddau.

Dywedodd y Cyngorhodd Brian Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug, 'Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol o ran cefnogaeth, ac wyf yn sicr y byddai'r gymuned yn gefnogol o unrhyw weithgareddau fyddai'r pwyllgor yn ei drefnu.'

Mae'r Cyngor felly yn gwneud apêl i unigolion a fyddai'n fodlon trefnu gweithgareddau i ddod ymlaen. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb neu angen rhagor o wybodaeth mac croeso iddynt gysylltu â Bethan Owen, Clerc y Cyngor, ar (01286) 650 770.

R. L. DAVIES

Coed Belyn Mawr, Bethol

JCB Fastracs a trailers 16 tonnall diggers bychain
ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi poiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

RAS YR WYDDFA 2004

Fel y gŵyr rhai ohonoch, fe'm penodwyd yn drefnydd Ras Yr Wyddfa fis Tachwedd y llynedd, yn dilyn ymddeoliad Ken Jones. Ers ei ffurfio yn ôl yn 1976 mae'r ras wedi tyfu o nerth i nerth a fy ngobaith i yw parhau â'r gwaith da a sicrhau y bydd y digwyddiad yn elwa'r rhedwyr, y bobl leol a'r gwylwyr.

O ganlyniad i hyn rwyf wedi derbyn nawdd gan nifer o fusnesau lleol ac yn gobeithio cael cymaint o fasnachwyr a phosib ar y cae ar y diwrnod. Fe fydd cwmni technolegol Gaia yn gosod rhwydwaith diwifr ar y mynydd fel y gellir dweud ble mae pob rhedwr yn ystod y ras wrth iddyn nhw wisgo microchip ar eu braich. Bydd yn

bosibl wedyn i'r rhai sy'n gwyllo'r ras wybod yn union ble mae pob rhedwr. Yn ogystal a hyn, fe fydd y ras yn cael ei darlledu'r flwyddyn nesaf ac fe fydd modd i bawb weld y lluniau'n fyw ar y sgrin fawr.

Cwmni arall sy'n ein noddi'n hael yw Euro DPC sydd wedi cynnig 1000 o Euros i'r rhedwr/wraig cyntaf; 750 i'r ail; 500 i'r trydydd a 250 i'r pedwerydd, gan obeithio y bydd yr arian yn denu mwy o redwyr rhyngwladol.

Bydd rasys i'r plant unwaith eto eleni a cânt eu noddi gan gwmni New Balance. Gobeithio y bydd nifer o bobl ifanc lleol yn meddwl cymryd rhan.

Ar y cae fe fydd cwrs ar gyfer



Un o rhedwyr brwdfrydig Ras yr Wyddfa.

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

beiciau mynydd gan Energy Cycles, stondinau amrywiol a wal ddringo. Y WI fydd yn gyfrifol am y te a'r teisennau eleni ac fe fyddant yn hel arian ar gyfer Ysgol Pendalar. Fe fydd nifer o therapyddion ffysio yn bresennol hefyd ac fe fydd gweithdai ar gyfer plant ac oedolion. Gobeithir arddangos cymaint o'r lluniau a dderbyniwyd i'r gydtadleuaeth dylunio crys-t. Cafwyd sawl ymgais o Ysgol Dolbadarn a byddai'n wych petai modd dangos pob un ohonynt!

Gobeithio y bydd y diwrnod yn un i'w gofio - dewch draw ar y 24 ain o Orffennaf!

DRAENOG

Lle mwdlyd, drewllyd a llithrig ydi toman dail bob amser. Roedd un gŵr o Lanbêr yn newydd i'r sefyllfa yma mae'n amlwg. Aeth i Dyddyn Marsli i nôl llond trol o'r 'gyfogyld gymysgfa' fel gwrtaith i'w rosod. Acth â'i gar yn rhy agos a gwelwyd ef yn llithro fel meddwyn o gwmpas y doman! Clywyd ef yn ceisio esbonio i ryw Sais ei fod yn hollol sobor.

'I'm OK - NO EL WAN!'

Nid acth undyn byw ar ei gyfyl am fythefnos!

DRAENOG

Ydi cresnian da da yn mynd ar y'ch nerfa chi? Wel mae o'n HEL EN earth i ŵr o Lanrug. Mae ei wraig yn mynnu cnoi mint yn ei gwely bob nos cyn cysgu. Erbyn hyn mae'r ddau yn cysgu ar wahân. PITi drosto fo, dduda i!

Cefnogwch ein Hysbysebwr

SPAR

Y STORFA LLANRUG

DAN BERCHNOGAETH
NEWYDD
Jackie Turner

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

(Manylion pellach
mis nesa')

Croeso i gwsmeriaid hen
a newydd!

Fframia Gwasanaeth Fframio Llundiau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Ty'n Llan Nant Peris

Cinio
dydd Sul
a
Byrbrydau



Bwydydd
Cymreig

Jim ac Anne Cumberton (01286) 870 284

Groeso cynnes bob amser



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac
i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

MARATHON LLUNDAIN.

Llongyfarchiadau i Hefin Hughes, Lleifior gynt, am orffen Marathon Llundain mewn ychydig dros 4 awr. Da iawn.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mai:

2: 11.00 Ysgol Sul;

2.00 Mr Richard Morris Jones

9: 11.00 Ysgol Sul.

16: 10.00 Mr Edward Morus Jones

11.00 Ysgol Sul.

23: 10.00 Mr Huw John Hughes

30: Dim gwasanaethau

Croeso i bawb o bob oed.

TYNFA FISOL CYMDEITHAS CAE CHWARAE CAEATHRO.

Yr enillwyr ar gyfer mis Ebrill oedd £40: (6) Viv Morgan, Tyddyn Bach; £25: (96) Norma Evans, Llecyn Clyd; £15: (10) Dafydd Morris, Frondeg; £5: (104) Alwyn a Nia, Y Dderwen.

Diolch i'n hapchwaraewyr selog a haelioni perchennog Penrhos, roedd yn bosibl i blant iau'r pentref a'r cych twynhau helpa wyau Pasg ar Sul y Pasg, gyda lluniaeth ysgafn wedyn.

CODI ARIAN I'R EISTEDDFOD.

Er mwyn ychwanegu at gyfraniad y Cyngor Cymuned, yr ymdrech gyntaf fydd gofyn am roddion

ariannol. Bydd amlen yn cael ei dosbarthu i bob tŷ gyda llythyr sy'n esbonio'r ffyrdd gwahanol o gyfrannu. Mae'n bosibl i drethdalwyr ad-ennill 28 ceiniog yn y bunt ar ben y rhodd sylfaenol. Dylid dychwelyd y cyfraniad yn yr amlen i Clive James, Hafan, Trysorydd yr apêl uchod.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Olga Evison, Cae Hopcyn, Rhos Bach, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 50 oed. Bydd dathlu ymlaen llaw wrth iddi ymweld â'i mab, Tom, yn Perth, Gorllewin Awstralia, gyda'i chwaer, Jean.

CYDYMDEIMLWN efo Rosie Lloyd, 2 Rhos Bach wedi marwolaeth ei mam yn Llundain.

ANRHYDEDD. Llongyfarchiadau i'r Dr. Dafydd Iwan ar gael ei anrhydeddu gyda gradd Doethur yn y Gyfraith gan Brifysgol Cymru Caerdydd yn ddiweddar.

TAITH GERDDED NODDEDIG.

Ar ddydd Sadwrn, 26 Mehefin cynhelir cyfres o deithiau cerdded o amgylch ffin yr Eisteddfod Genedlaethol. Gellir dewis rhwng teithiau mynyddig, llwybrau arfordirol neu ar hyd Lôn Eifion a Lôn Las Menai. Trwy gasglu noddwyr, gellir codi arian tuag at Apêl Caeathro a Waunfawr. Mae'r ffurflenni ar gael gan Clive James, Hafan.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Deryck (Gomez) a Gwyneth, 15 Stryd y Ffynnon, Llanberis a Llundain, ddiolch o galon i'w ffrindiau yn Llanberis am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Kitty, mam Deryck.

DYMUNA Gwen Edwards a'r teulu ddiolch o galon i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn, sef Mrs Jane Jones o'r Groeslon.

Diolch yn arbennig i staff Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, am eu caredigrwydd a'u gofal tuag ati.

DYMUNA Rhiannon Evans, Gillian a Gwynfor Jones, Isallt, Stryd Newton, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn, sef y diweddar Bernard Evans. Diolch yn fawr iawn am y rhoddion hael o £578 tuag at Uned Arennau, Ysbyty Gwynedd. **CÔR DYFFRYN PERIS.** Yn ystod y mis diwethaf bu'r Côr yn

diddanu pobl o bell ac agos.

Ar nos Sadwrn, 27 Mawrth, roeddynt yng Ngwesty'r Meifod, Bontnewydd yn difyrru aelodau o Gwmni Twristiaeth Cymru ynghyd â'u gwesteion o wlad bell.

Gwesty'r Quality, Llanberis oedd y fangre nos lau, 1 Ebrill, gyda gwesteion o Loegr yn derbyn adloniant.

Diddanu hen ffrindiau a chyn-gymdogion fu hanes y Côr ar nos Lun, 19 Ebrill, pan gynhaliwyd cyngerdd ganddynt yng Nghartref Bron Eryri.

PWYLLGOR APÊL

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI 2005.

Cyngerdd o ddoniau lleol yn Eglwys Sant Padarn ar 6 Mehefin fydd gweithgaredd cyntaf y pwyllgor apêl. Ceir mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Gellir anfon cyfraniadau at y trysorydd, sef Richard Thomas, Graianfryn, 39 Stryd Newton, Llanberis (01286) 871954.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Angorfa, Llanberis nos Fawrth, 11 Mai am 7.00 yh. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CWMNI CYDWEITHREDOL CYMUNEDOL TAFARN Y FIC, LLITHFAEN

YN EISIAU

RHEOLYDD A CHOGYDD/IS-REOLYDD

ar gyfer

TAFARN BENTREF CYMREIG

Cytundeb hyd Ionawr 2007.

Cyflog i'w drafod (i gynnwys Tâl Perfformiad ar ôl cyfnod prawf)

Croesewir ceisiadau gan unigolion/cyplau neu bartneriaid busnes egniol a brwdfrydig. Bydd profiad o redeg busnes o'r fath yn fanteisiol.

Wedi cyfnod o ail-ddatblygu, bydd y dafarn yn ailagor diwedd Haf 2004 gyda chegin ac ystafell amibwrpas newydd. Y nod yw creu a chynnal tafarn gymunedol Gymreig llewyrchus gyda bwyty deniadol, man cyfarfod a hyfforddiant i'r gymuned a chanolfan adloniannol blaengar.

Bydd fflat deulofft ar gael uwchben y dafarn. Telerau i'w trafod.

Cysylltwch â John Llyfnwy Jones (01758 750275) neu Gwenan Williams (01758 720167) am sgwrs anffurfiol a Ffurflen Gais/Pecyn Gwybodaeth

DYDDIAD CAU: DYDD GWENER, 21 MAI 2004

Cefnogir gan Gronfa Adfywio Cyngor Gwynedd a Chronfa Amcan Un Gorllewin a Chymoedd Cymru



CLWB YR HENOED. Ar ddydd lau, 5 Ebrill cynhaliwyd Cinio Blyneddol y Clwb i ddathlu Gŵyl ein nawddsant yng Ngwesty'r Quality, Llanberis.

Fe ohiriwyd y cinio gwreiddiol oherwydd yr eira trwm a gafwyd

ddiwedd Chwefror.

Estynnwn ddiolch i'r trefnwyr, i staff a pherchnogion y gwesty am y wled a gafwyd ac i'r unawdydd, Elin Mai Jones a fu'n diddor i'r aelodau wedi'r cinio.



Etholiad Cyngor Gwynedd
10 Mehefin 2004



Plaid Cymru
The Party of Wales

Carys Morris

Ymgeisydd Plaid Cymru
Llanberis a Nant Peris

*Llais newydd i
Lanbêr a'r Nant !*

Cyhoeddwyd gan Carys Morris, Graianfryn, 39 Stryd Newton, Llanberis.
Ffôn: (01286) 871954

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Ebrill 2004

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Cymuned (CC) a gynhaliwyd yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau, 15 Ebrill, 2004.

PRESENNOL:

Ward Padarn: Emllyn Baylis, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp (Cofnodi), Ken Jones, Carys Morris.
Ward Peris: Dei Tomos (Cadeirydd)

YMDDIHEURIADAU: Anne Cumberton

CADARNHAU COFNODION: Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau, 18 Mawrth 2004, fel rhai cywir, ond gyda un ychwanegiad, sef enw Olwen Gwilym fel un o'r Cynghorwyr a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyhoeddus i drafod Gweithgarwch Ieuenctid. Cynnig ac eilio CM ac KJ.

SWYDD Y CLERC: Chafwyd dim ymateb pellach ac mae'r swydd heb ei llenwi.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

- a) Grŵp Ieuenctid: Cafwyd adroddiad ar y Grŵp Gweithgarwch Ieuenctid a ffurfiwyd yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus, gan CM. Ers y cyfarfod cyhoeddus gwreiddiol roedd un cyfarfod wedi ei gynnal ond roedd prinder aelodau. Adroddwyd bod teimlad yn y cyfarfod bod angen mwy o gefnogaeth oddi wrth y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Sir lleol a phwyllgor Y Ganolfan a dywedwyd bod angen ysbryd gwell o gydweithio. Mae cyfarfod cyhoeddus arall i'w gynnal yn Y Ganolfan ar Fai 4ydd am 7 o'r gloch i drafod adeiladu 'Parc Sglefrio'. Adroddwyd bod tir Dôl y Goeden ar fin cael ei drosglwyddo gan Gyngor Gwynedd (CG) i ofal pwyllgor Y Ganolfan, ac efallai y byddai tir addas ar gael yno. Codwyd cwestiwn ynglŷn â ffynhonnell ariannol i dalu am chwarae sgelfrio. Pwyswyd am gefnogaeth aelodau'r CC i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.
- b) Llythyr yr Eco: Adroddwyd fod llythyr wedi ymddangos yn rhifyn diwethaf 'Eco'r Wyddfa' yn feirniadol o'r CC. O fwyafrif mawr penderfynwyd ei anwybyddu, a pheidio ymateb iddo. Cynnig ac eilio HS a CM.
- c) Cafwyd ymateb gan Heddlu'r Gogledd (HG) i lythyr y CC yn gresynu fod bwriad i ganoli gwasanaeth derbyn galwadu mewn un lleoliad. Roedd y llythyr yn cydnabod fod HG yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan y CC am ddwyieithrwydd a gwybodacth leol, ac yn sicrhau'r Cyngor y byddai hynny yn cael sylw manwl wrth agor y ganolfan newydd. Roedd y Prif Uwch

Arolygydd Gareth Pritchard, a ysgrifennodd y llythyr, hefyd yn cydnabod ei fod yn deall siom y CC fod yr heddw a benodwyd i'r pentref yn ddiweddar yn uniaith Saesneg. (Yma fe adroddwyd gan sawl un fod y CC wedi gwneud popeth posib i gynorthwyo'r Swyddog Rhawd Cymunedol newydd, ac y bydd y cydweithrediad yn parhau.) Ychwanegodd y llythyr fod HG wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd yn ddiweddar i 'ricriwtio swyddogion Cymraeg', ac fod hynny wedi bod yn llwyddiannus.

- ch) Adroddwyd fod llythyr ar ei ffordd i ofyn am gymorth y CC tuag at groesawu dirprwyaeth o Morbegno, Yr Eidal dros benwythnos Ras yr Wyddfa. Y penwythnos hwnnw y cwblheir yn swyddogol y gefeillio rhwng Llanberis a Morbegno, a fu'n anfon rhedwyr yma am chwarter canrif i gystadlu'n y ras i gopa mynydd uchaf Cymru.
- d) Adroddwyd fod cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn y Nant, nos Iau Ebrill 22ain i drafod ymhellach fwriad cwmni telegyfathrebu i godi mast TETRA yn y pentre. Mae'r cyfarfod yn Ty'n Llan am 6yh, ac estynnwyd gwahoddiad i gynghorwyr ward Padarn i'r cyfarfod. Trwy drefniant y Cynghorydd Trevor O. Edwards mac disgwyl y bydd cynrychiolwyr o'r cwmni sy'n gwneud y cais cynllunio a phrif swyddog cynllunio APCE yn bresennol.
- dd) Mae disgwyl y Dr Dafydd Roberts o'r Amgueddfa Lechi i'r cyfarfod nesaf o'r CC i drafod y posibilrwydd o gael Llwybr Dehongli o gwmpas y pentref.
- e) Cafwyd adroddiad gan DT a CM o Bwyllgor Apêl lleol yr Eisteddfod Genedlaethol (EG). Mae nifer o drefniadau ar y gweill i godi arian yn ystod y misoedd nesaf. Bydd Cyngerdd o dalentau lleol yn Eglwys St Padarn nos Sul Mehefin 6ed i roi dechrau ar y gwaith o godi gweddill y saith mil o bunnau. Dywedodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Apêl canolog yr Eisteddfod wedi croesawu'n gynnes iawn y newydd fod y CC wedi cyfrannu £4,000 (dros ddwy flynedd) i'r EG y flwyddyn nesa.
- f) Derbyniwyd llythyr oddi wrth swyddog Goriad Gwyrdd Eryri yn diolch am yr awgrym o 'Dôl y Goeden' fel enw addas ar gyfer y ganolfan bysiau newydd. Roedd yn derbyn awgrym y Cyngor fod yr enw 'Pont Bala' yn anaddas a charmarweiniol.
- ff) Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi trafod mater y Dychweliad Ariannol Blyneddol gyda'r cwmni sy'n gyfrifol amdano a'i fod yn

disgwyl y papurau perthnasol oddi wrthynt.

CEISIADAU CYNLLUNIO: Nid oedd ceisiadu i'w hystyried.

LLWYBRAU: Nodwyd eto fod cyflwr y llwybr sy'n arwain tuag at y Castell o gyfeiriad Pentre Castell mewn cyflwr gwlyb a mwdlyd.

Nodwyd hefyd fod llwybr 'Bryn Bedw' angen ei drin, gor dyfiant oedd yn achosi trafferth.

Y FYNWENT: Adroddwyd y bydd glaswellt y Fynwent wedi ei dorri cyn diwedd Ebrill.

Bydd angen cysylltu ac ymgymwrwr i symud cerrig a phridd hefyd, unwaith y bydd y ddaear wedi sychu

GOHEBIAETH:

- 1) Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gwmni Ieuenctid Rygarug, a 2 docyn i'w cynhyrchiad theatrig ar Ebrill 17eg.
- 2) Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cronfa Gwella Gwynedd yn nodi fod angen cynlluniau ar gyfer ceisiadau ariannol yn y dyfodol agos. (Mater i'r Cyngor newydd ei ystyried!)
- 3) Adroddwyd fod CG bellach yn gwagio Biniau Baw Cwn yn ddi-dâl, a bod cyflenwad o'r biniau i'w gosod mewn pentrefi ar draws y sir yn y dyfodol agos. Gofynnwyd i'r Cadeirydd

ysgrifennu rhag blaen i archebu rhai, gan nodi i ni fod yn disgwyl rhai ar gyfer Llanberis a Nantperis ers misoedd lawer.

- 4) Daeth llythyr yn nodi fod cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu gan yr Heddlu ym Mhorthmadog ar Ebrill 22ain.

UNRHYW FATER ARALL:

- a) Yn dilyn cyfarfod beth amser yn ôl gydag un o swyddogion Prifyrdd CG, dywedodd FO nad oedd llinellau melyn dwbwl wedi eu paentio ar ffordd Tŷ Du. Penderfynwyd ysgrifennu i ofyn pam, ac i bwyso am ychwanegu'r llinellau cyn gynted a phosib.
- b) Adroddwyd fod sbwriel difrifol yn y mân lynnoedd tu ôl i safleoedd DMM a KMP a gofynnwyd am lythyr i swyddogion Parc Padarn i ofyn ai nhw oedd yn gyfrifol am eu cadw'n daclus?
- c) Adroddwyd fod lamp stryd heb olau wrth Fron Olau/ Bron Eryri.
- ch) Adroddodd EB fod Cwmni Tref ac Adwy Cyf. yn edrych ar berchnogaeth y tir ger Pont Afon Hwch lle bu sbwriel yn ddiweddar.

Mae'r cyfarfod nesaf ar y 13eg o Fai am 7.00yh yn Angorfa.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

DYMUNA Melvyn a Prydwen Pritchard, Llys Awel, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.



Dafydd Pritchard a W. A. Williams yn cyflwyno sic o £250 i gynrychiolwyr Apêl yr Ambiwylans Awyr a Tŷ Gobaith ar ran Pwyllgor Treialon Cw'n Defaid Nant Peris.

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR



ELUSNAU'R LLOYER
GENERAL ACTION
Cyfr
NANTPERIS LOTTERY
CHARITIES BOARD

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU 2005.

Cynhaliwyd pwyllgor nos Fercher, 28 Ebrill yn yr Ystafell Gymuned. Nod ariannol y pentref yw £2,000 a, chyda chyfraniadau sylweddol mewn gwobrau ynghyd â chylchlythyr yn gofyn yn garedig am rodd ariannol, gobeithir cyrraedd y nod yn sydyn iawn. Gellir anfon eich rhoddion yn uniongyrchol i'r Trysorydd, Leslie Larsen, Llygad yr Haul, neu drwy law aelodau o'r pwyllgor. Diolch o galon. Pwyllgor Neuadd Bentreff. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr y mis hwn yw Dafydd Williams, Meini Gleision, Brynrefail; Dafydd Ifans, Sycharth ac Ann Patterson, 1 Bryntirion.

Gobeithir trefnu Raffl Fawr i godi arian o ddechrau'r haf hyd mis Tachwedd. Gofynnir yn garedig am eich cydweithrediad arferol.

GWELLHAD. Dymunir adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref.

Ein cofion anwylaf at Dafydd Ifans, Sycharth wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysia wella, Dafydd.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at deuluoedd sydd â chysylltiadau agos â'r pentref hwn. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Ann Griffith a'r teulu oll ar farwolaeth mam a nain annwyl, sef Eurwen Griffith, Cae'r Bythod.

Estynnir yr un cydymdeimlad â theulu Mr William Huw Griffith, Fferm Llys a'r teulu oll ar farwolaeth brawd annwyl, sef Owie, Fferm Castell, Pentir.

Ein cydymdeimlad dyfnaf hefyd â Mrs Gwyneth Jones, 6 Llys y Gwynt ar golli ei brawd o Wrecsam yn ddiweddar.

CERDDER ER BUDD ELUSEN CANCR Y FRON. Bydd Eurgain Haf, Sycharth, yn cerdded pellter marathon Llundain, sef 26 milltir, a hynny yn ystod y nos er budd elusen Cancr y Fron.

Os dymuna unrhyw un o drigolion y fro ei noddi, buasai'n hynod ddiolchgar. Diolchir yn barod i aelodau Côr Clychau'r Grug a Changen Merched y Wawr Llanrug am eu haelioni mawr.

LLONGYFARCHIADAU. Ar achlysur hapus dymunir llongyfarch Mr William Hugh ac Elspeth Griffiths ar ddatlu eu Priodas Aur ar ddydd Llun y Pasg.

Llongyfarchiadau hefyd i blant y pentref a phlant y fro a gymerodd ran yn Sioe Gerdd Rygarug 'Copa Gaban' yn Theatr Seilo. Pleser o'r mwyaf oedd gwyllo'r plant yn mwynhau eu hunain ac yn amlwg wedi dysgu llawer am y fro hardd hon. 'Adlewyrchu llen gwerin a hanes lleol Dyffryn Peris' a gafwyd mewn stori a chân a dysgwyd llawer am gymeriadau a lleoliadau hanesyddol.

Llongyfarchiadau mawr i chwi oll a phob dymuniad da i'r dyfodol. YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA.

Llongyfarchiadau i chwi blant am eich cyfraniad yn y Gymanfa yng Nghapel Jeriwsalem. Llanberis. Roedd pawb wedi dysgu eu gwaith yn trwyadl.

Cafwyd Cymanta fywio a bondithiol iawn dan arweiniad Arwel Jones, Cae Eboni, gyda Hefina Jones, Llanberis ar yr organ. Roedd

digon o fynd a chanu ar y caneuon a'r plant a'r oedolion wrth eu bodd. Diolchir i Arwel ac i Hefina ac i'r Parch John Pritchard am lywyddu ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y Gymanfa.

Bydd Cymanfa eto ym mis Mehefin, sef Cymanfa y Methodistiaid, a hynny yng Nghapel Seilo, Tregarth. Bydd manylion pellach i ddod.

Cynhelir Gwasanaeth Sul y Beiblau hefyd ym mis Mehefin, yn Eglwys Santes Helen.

ARHOLIADAU. Dyma adeg y chwysu a'r adolygu i lawer ohonoch. Dymunir y gorau i bob un ohonoch yn yr amrywiol arholiadau. Bydd yn braf cael dathlu wedyn.

EGLWYS SANTES HELEN

Gwasanaethau mis Mai:

Sul 1af a'r 3ydd: Cymun Bendigaid am 10.30;

2il a 4ydd Sul: Cymun Bendigaid am 5 o'r gloch;

Mai 30: Y Pentecost - i'w gyhoeddi yn y wasg leol.

Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 yn Neuadd yr Eglwys bob bore Sul.

Cwrs Alpha Ieuencid - bob nos Lun yn y Ficerdy yn Felinheli am 5.00 o'r gloch.

Gyrfa Chwist - yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fawrth am 7.30 o'r gloch.

CYNHELIR CYFARFOD CYHOEDDUS i drefnu'r Carnifal a'r Gweithgareddau yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, 17 Mai am 7.30. Estynnir croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i'r cyfarfod hwn. Taer erfynnir am gefnogaeth i sicrhau parhad y Carnifal yn y pentref.

APÊL. Anfonwch neu ffoniwch eich newyddion erbyn y dyddiad a nodir yn glir ar ail dudalen yr Eco i Sycharth, ffôn 872407.



Ar Ben Arall y Lein

Mae llyn Padarn, dros wythnosau cyntaf y tymor, wedi bod yn atyniad poblogaidd, yr unig broblem i'r gymdeithas wrth gwrs yw nad oes neb i'w weld eisiau talu am ei bysgota. Mae'r ieuencid sydd yn awyddus iawn i fod yno yn hollol anwybodus o'r faith fod eisiau ymuno â'r gymdeithas, er eu bod i gyd wedi mynd heibio arwydd digon plaen sy'n egluro hyn.

Rydym fel clwb yn falch dros ben fod cymaint o ieuencid y fro yn ymddiddori yn y gêm, ond da chwi rieni, os yw eich pobl ifanc yn mynd allan i 'sgota, ac mae'n debyg fod hyn yn ddigon amlwg pan maent yn mynd allan gyda'r enwair, fod ganddynt docyn y clwb. £15 yw'r gost am dymor a hyn yn caniatáu 'sgota ar ein holl ddyfroedd - bargaen y flwyddyn. Heb godi arian, ni fydd yn bosib cario mlaen a does dim eisiau dweud pwy fuasai'n fwy na pharod i gymryd drosodd. Ni fuasai'n bosib 'sgota o gwbl wedyn am unrhyw bris os buasai syndicadau neu unigolion o dros glawdd Offa yn symud i mewn. Arwyddocaol efallai am ddyfodol ein pysgota hefyd yw'r slogan a ymddangosodd ar ochr y llyn yn ddiweddar.

Er hyn i gyd mae Padarn, Cwellyn a Nantlle yn pysgota'n eithriadol o dda, o bosib y dechrau tymor gorau ers llawer

blwyddyn, ond nid yw hyn yn wir am yr afonydd, araf iawn yw pethau ar y tair afon i ddweud y gwir, oherwydd y tywydd ansefydlog, gyda eira yn dal ar y Wyddfa a'r Carneddau. Wrth gwrs fe all pethau newid dros ychydig ddyddiau pan fydd tymheredd y dŵr ar i fyny. Pan ddaw hyn ar dro byddwch yn ofalus gyda'r sils, gan fod ganddynt siwrnai faith o'u blaenau, a gobeithir ei croesawu'n ôl ymhen rhyw bymtheng mis fel cog neu sewin gloyw.

Mae Llyn Dywarchen wedi ei stocio am y tro cyntaf ers diwedd Mawrth, ond braidd yn gynnar yw yno oherwydd ei uchder. Llecyn arbennig ond ei bod y gythreulig o oer yna. Sut mae'r cyfryw rai yn gallu byw yno dros y gaeaf sy'n syndod mawr imi. Mae gen i stori berffaith wir am hyn, efallai yr adroddaf hi yn nes ymlaen, ond wrth gwrs i'r rhain 'rwy'n gwybod eu bod yn bod.

Mae cryn bryder ynglŷn ag is-ddeddfau newydd sydd wedi dod i rym gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin, i'r perwyl fod rhwydi i ddal pysgod môr (a oedd gynt wedi eu gwahardd rhag defnyddio masg bychan fel nad oeddynt yn amharu ar fudiad sewin a cog), yn awr i gael defnyddio rhwydwaith bach. Mae llawer un, gan fy nghynnwys, i wedi cael ein camarwain ar hyn. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cysylltu â'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr i awgrymu fod y cymal yma yn y deddfau yn cael ei ohirio.

O ganol Mai bydd cwch arbennig at ddefnydd pysgotwyr sy'n ddibynnol ar gadair olwyn yn cael ei lleoli yn Llyn Nantlle. Rhaid diolch i ddau gorff am gymorth helaeth at y pryniant yma, sef Cynllun Pysgodfeydd Cynladwy Cymru (cynllun sy'n cael ei weinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd gydag arian o'r Cynulliad Cenedlaethol, Ewrop Amcan 1) a Cyngor Chwaraeon Cymru.

Bydd ychwanegiad i'r pysgota eleni. Mae trwydded newydd am saith mlynedd wedi ei chytuno gyda Chyngor Gwynedd ar rannau o Afon Seiont ar Gaeau 'Rafon ac o Llyn Crwn i lawr at yr hen ffordd dram sydd o dan Llyn Du, Caernarfon. Mae cryn waith yw wncud i dcluso'r ardal yma, a chefais dipyn o ysgytwad wrth gerdded dan Bont Sipsiwn a gweld yr holl llanast oedd yno - twmpath enfawr o ganiau a photeli cwrw. Mae'n amlwg fod mwy o yfed yn y fan hyn 'na sy'n holl dafarnadai'r dref.

HUW PRICE HUGHES



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

O SIAMBAR SELWYN

Profiad braf i urhyw feirniad wrth iddo fynd ati i feirniadu cyfansoddiadau llenyddol mewn eisteddfod ydi dod ar draws gwaith sydd ymhell ar y blaen i bob un arall ac yn gwbl deilwng o'r wobwr.

Roedd Eisteddfod Gadeiriol y Ffôr, ger Pwllheli, y 414 eisteddfod i mi feirniadu ynddi. Rwy'n hynod falch i mi gadw cofnod o bob un, gan nodi pwy oedd fy nghyd-feirniad cerdd, ac i bwy y dyfarnais y gadair yn yr eisteddfodau cadeiriol. Dros y blynyddoedd rydw i wedi dyfarnu cadair/coron eisteddfod i 141 o feirdd/lleonorion. Yn eu plith mae 'na amryw a ddaeth yn ddiweddarach i eistedd yng nghadair y Brifwyl ac i wisgo'i choron.

Yn Eisteddfod y Ffôr 1979 a 1980, enillwyd y gadair gan R.O. Williams, Y Bala. Rhoddais gadair Eisteddfod Aelhaearn iddo yn 1980 hefyd a chadair Chwillog yn 1993. Enillodd R.O. Williams Gadair y Brifwyl ym Mro Dinefwr yn 1996. Cefais y fraint o ddyfarnu'r Gadair i'r hen gyfaill, John Gruffydd Jones, Abergele deirgwaith - Llanrhacadr-ym-Mochnant 1979, a'r wythnos ddilynol enillodd Gadair Aelhaearn. Yn 1981 fo oedd y bardd buddugol yn Eisteddfod Lerpwl. Enillodd John y Fedal Ryddiaith ym Machynlleth 1981 a'r Goron Genedlaethol ym Mhorthmadog yn 1987.

Dwi'n cofio Eisteddfod leol Cricieth 1982. Bachgen ifanc yn dod yr holl ffordd o Dreforus i gael ei gadeirio am y tro cyntaf. Dair blynedd yn ddiweddarach roedd o'n eistedd yng nghadair y Brifwyl yn y Rhyl. Y dysgwr cyntaf i ennill y fath anrhydedd. Ei enw - Robat Powel.

Yn Eisteddfod Llanllyfni 1992 cefais y fraint o ddyfarnu un o'i gadeiriau cyntaf, os nad y cyntaf un, i Mei Mac.

Yn Eisteddfod Dyffryn Conwy 1990, mi dderbyniais Awdl a oedd ymhell ar y blaen i'r gweddill yn y gystadleuaeth. Yn fy meirniadaeth roeddwn yn darogan y byddai'r bardd arbennig hwn yn ennill y Gadair Genedlaethol yn fuan iawn. Ymhen deufis, roedd Myrddin ap Dafydd yn eistedd yng nghadair y Brifwyl yng Nghwm Rhymni.

Cefais y fraint o gadeirio Archdderwydd unwaith a hynny mewn Cylch-wyl yng Nghricieth. W.R.P. George oedd y bardd buddugol am lunio telyneg. Roedd hyn flynyddoedd cyn iddo gael ei ethol yn Archdderwydd.

Mae 'na enwau cyfarwydd eraill, y cefais y fraint o ddyfarnu cadair iddyn nhw, yn y llyfr cofnodion. Rhai fel Karen Owen, Hilma Lloyd Edwards a Geraint Lloyd Owen: beirdd o'r fro hon sydd wedi bod yn bar agos at ennill prif wobrwyl y Genedlaethol fwy nag unwaith.

Cefais y fraint o gadeirio dau o'n Prif-leonorion a hynny yn

Eisteddfod leol Carmel, sef Eirug Wyn yn 1992 a'r diweddar Emyr Jones yn 1993.

Ond dowch yn ôl at Eisteddfod y Ffôr eleni. Dwi ddim yn credu i mi erioed dderbyn gwaith mor addawol mewn eisteddfod leol.

Y bardd buddugol oedd Geraint Roberts, Prifathro Ysgol y Strade, Llanelli. Yn anffodus, doedd o ddim yno i gael ei gadeirio ond fe'i cynrychiolwyd gan ei fab, Llŷr Roberts.

Roedd Geraint a chriw o ddosbarth llenyddol y Prifardd Tudur Dylan yn ymweld â Gwlad Belg am ychydig ddyddiau a, thrwy gymorth ffôn symudol 'Nokia' (a dyna beth oedd ffugenw'r bardd buddugol, gyda llaw) fe drosglwyddwyd y seremoni o lwyfan y Ffôr i westy yng Ngwlad Belg, lle y cadeiriwyd Geraint Roberts ar yr un pryd, gan y Prifeirdd Tudur Dylan a Mererid Hopwood. Ar ddiwedd y seremoni fe ymunodd y criw yng Ngwlad Belg â chynulleidfara'r Ffôr i ganu Cân y Cadeirio a'r Anthem Genedlaethol. Digwyddiad unigryw a hanesyddol yn sicr.

Roedd Geraint Roberts yn agos iawn at ennill y Gadair Genedlaethol ym Mhrifwyl Tyddewi. Dwi'n darogan, fel y gwnes i gyda Myrddin ap Dafydd yn Llanrwst yn 1990, y bydd bardd Cadair y Ffôr eleni yn eistedd yng Nghadair y Brifwyl yn y dyfodol agos.

Ydi, me'r llyfr o fy nghofnodion eisteddfodol yn hynod o ddiddorol. Dwi'n falch i mi ei gadw dros y blynyddoedd.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

DYMUNA Hannah ac Ifan, Tŷr Ysgol, y plant a'r teulu o ardal Tregarth a Sandycroft, ddiolch i'w llu ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli mam a nain annwyl.

Diolch arbennig am y cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael o £338 a dderbyniwyd yn ddiolchgar i Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb.

WEDI BOD YN YR YSBYTY. Drwg oedd gennym ddeall fod Mr Ifor Phillips, 12 Maes Eilian, wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y mis. Mae wedi cael dod adref erbyn hyn a hyderwn y bydd iddo gael llwyr iachad. Brysia wella, Ifor.

CYFARFOD PREGETHU. Cynhaliwyd cyfarfod pregethu Cefn y Waun ar Sul y Pasg. Y cenad gwadd oedd y Parch Bryn Williams, Y Bala (Penisarwaun gynt). Cynhaliwyd dwy oedfa a chafwyd cenadawri amserol iawn ganddo a braf yw gallu dweud mai da oedd imi fod yno. I'r sawl na ddaeth i'r oedfaon, fe gawsant golled. Diolch iddo am ei genadwri amserol.

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: **870444**



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch
cadw'n gynnes ac yn glyd!

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel
Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
- rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** i'ch
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



UN FUNUD FACH

GWYBOD YN IAWN

Maddeued yr Eglwyswyr i mi am ddeud hyn, ond mae'n siŵr bod pregethau gwell wedi eu traddodi yn rhai o gapeli ac eglwysi'r fro hon y Sul diwethaf na'r un a draddododd Archesgob Caergaint mewn eglwys yng Nghaergrawnt yr wythnos ddiwethaf. Gwir bod geiriau'r Archesgob yn ddiddorol ac yn ddadleugar ac yn ddadlennol; ond darlith yn hytrach na phregeth a gafwyd ganddo. Ac nid oedd hynny'n syndod o gofio mai traddodi anerchiad academiaidd a wnâi yng Nghaergrawnt ac nid annerch cynulleidfa o addolwyr Sul.

Trafod ufudd-dod y Cristion oedd Rowan Williams, gan fynd i'r afael â'r ufudd-dod y dylid ei roi i awdurdodau a llywodraethau. Fel y gallech ddisgwyl, roedd ganddo bethau treiddgar i'w dweud: wedi'r cwbl, mae'n ŵr dysgedig; yn ddadleuwr medrus; ac yn llenor dawnus. A mentrodd wneud rhai sylwadau am y Llywodraeth bresennol, gan ddadlau iddi dros y flwyddyn ddiwethaf weithredu mewn ffordd a allai olygu y bydd yn anodd i bobl ymddiried ynnddi eto. Dweud wnaeth yr Archesgob bod y Llywodraeth wedi mynd i ryfel yn Irac ar sail gwybodaeth a honnai oedd yn sicr a dibynadwy; ac er bod y wybodaeth honno bellach yn ymddangos yn ansicr, nid yw'r Llywodraeth yn barod i gydnabod hynny. Ofni mae'r Archesgob na all Llywodraeth sy'n gweithredu felly ddisgwyl ymddiriedaeth ac ufudd-dod pobl.

Ymateb y Llywodraeth i'r sylwadau oedd yn wirioneddol ddiddorol: 'Rydym eisoes yn ymwybodol o farn yr Archesgob.' Mae'r Llywodraeth yn gwybod am ei feirniadaeth, ac oherwydd hynny yn ei hanwybyddu. Mae gan y Llywodraeth bob hawl i wadu'r cyhuddiadau ac i wrthod y feirniadaeth: a gall ddadlau bod yr Archesgob yn anghywir ac yn annheg. Ond pa fath o ateb yw dweud ei bod yn ymwybodol o'i syniadau, fel pŵer hynny'n golygu nad oes angen eu hystyried?

Peth peryglus yw anwybyddu pethau nad ydym yn hoff o'u clywed, ac mae'n siŵr bod pawb ohonom yn gwneud hynny ar adegau. Mae'n haws anwybyddu feirniadaeth na'i wynebu a'i hystyried. Mae pawb ohonom yn pechu; ac mae'r Beibl yn ein cyhuddo, a feiddiwn ni ddim anwybyddu'r cyhuddiadau hynny. Ffŵl sy'n dweud ei fod yn gwybod yn iawn beth ddywed y Beibl, ac oherwydd hynny nad oes angen iddo gymryd sylw ohono.

JOHN PRITCHARD

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DIOLCH. Dymuna Delyth Jones, 11 Trem Eilian ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu'r gangen nos Lun, Ebrill 19eg yn Ysgol Gymuned Cwmyglo. Cafwyd arddangosfa gan Jenine o gynnyrch 'Body Shop' a mwynhawyd y noswaith yn fawr iawn. Gan fod un o'r aelodau yn dathlu pen-blwydd yn 80 oed ar Ebrill 21ain roedd Gwenda Roberts wedi paratoi teisen ddeniadol i longyfarch Jennie Hughes ar yr achlysur. Gwenllian Edwards oedd yng ngofal y lluniaeth ac yn rhoddi gwobr y mis a enillwyd gan y wraig wadd. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun Mai 17eg pryd y bydd yr Argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynnyddol Cenedlaethol yn cael eu trafod.

PROFEDIGAETH Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr W.H.Griffith, Llys, Brynrefail yn ei brofedigaeth o golli ei frawd y diweddar Owain Wyn Griffith, Castell, Pentir yn 74 mlwydd oed ar Ebrill 16eg.

Bu'r angladd cyhoeddus yn Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen ddydd Iau, Ebrill 22ain.

YMWELD Â PHASANT SEILO, CAERNARFON. Nos Sadwrn, 3 Ebrill, mwynhaodd nifer o'r aelodau addasiad y Parch Harri Parri o'r nofel *Chwalfa* gan T. Rowland Hughes, yn Theatr Seilo, yn cael ei berfformio gan Gymdeithas y Gronyn Gwenith.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

OEDFA'R PASG Gwasanaethwyd yn yr oedfa hwyrol gan y Parch Gwynfor Williams, Caernarfon. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

SASIWN GENHADOL CHWIORYDD Y GOGLEDD

Cynhelir y Sasiwn eleni yng Nghapel Bowydd Blaenau Ffestiniog ddydd Mawrth Mai 4ydd pryd yr anerchir yn oedfa'r prynhawn am 2 gan y Parch Catrin Roberts, Caerdydd ac am 5.30 yr hwyr gan Mrs Cynthia Saunders Davies, Aberteifi.

Yn y casgliad blynnyddol yn lleol tuag at waith y Genhadaeth gartref a thramor casglwyd y swm o £83. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

OEDFAON MAI

2: CYMANFA DOSBARTH PADARN am 2 a 6 o'r gloch yng **NGHAPEL COCH**, Llanberis

(Bydd y Detholiad o Emynau genir yn oedfa'r hwyr o'r Rhaglen Cymanfaoedd Canu yn gynwysedig hefyd yn *Caneuon Ffydd*)

9: Mr Mertyn Jones, Caernarfon am 2

16: Mr J. O. Roberts, Bethesda am 5.30

23: Parch Eric Jones, Bangor am 5.30

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

30: Parch Dafydd Ll Hughes, Caernarfon am 5.30

PLYGU'R ECO. Tro pentref Brynrefail fydd plygu'r Eco fis nesaf. Byddwn yn cyfarfod yn Ysgol Gymuned Cwmyglo i wneud y gwaith. Hyderwn y cawn eich cefnogaeth Nos Iau, Mai 27ain.

DRAENOG

Cafodd ffermwr o Nant amser CALED ofn adwy yn ystod y mis. Cymysgodd 'Polyfilla' yn ei gartref ac aeth a'r gymysgaeth i ffermdy arall gryn bellter i ffwrdd i lenwi cracia'. Ysgogodd hyn i limrigwr lleol ganu...

A glywsoch am fugail Tŷ Isa Yn cawlio y stwff Polyfilla? 'O damia', medd met Dwi braidd yn too let! Ma'r cracia yn dal ar y walia!

Cefnogwch
ein Hysbysebwy



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- CWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CAPEL TABERNACL. Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Annibynwyr Dosbarth Cwm-y-glo eleni yng Nghapel Jerusalem, Llanberis. Cymerwyd y rhan agoriadol gan aelodau eglwys Jerusalem a'r rhannau eraill gan blant ysgolion Sul Bosra, Capel Coch ac Ebenezer. Gwnaeth y plant eu gwaith yn ganmoladwy iawn a dymunwn ddiolch i rai o'r tair eglwys am eu hyfforddi. Arweinydd y gân oedd Mr Arwel Jones, gyda Mrs Hefina Jones wrth yr organ. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad tuag at lwyddiant y Gymanfa gan Mr Robert Lloyd. Rhoddwyd y Fendith i derfynu gan y Parch John Pritchard.

LLONGYFARCHIADAU i Kevin Foulkes, 12 Dôl Afon, ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mr Llew Hughes (Hyfrydle gynt) sydd yn Ysbyty Gwynedd.

YSGOL CWM Y GLO

Braf iawn yw cael croesawu Anti Margaret, Bryn, yn ôl atom i'r ysgol a hithau wedi gwella'n llwyr ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae wedi bod yn dymor y Pasg prysur fel arfer. Cynhaliwyd Eisteddfodau'r Urdd. Diolch yn fawr i Mrs. Jen Roberts am hyfforddi'r ddau barti Dawnsio Gwerin, dan 10 oed a'r un dan 12 oed. Aeth y parti hynaf ymlaen i Eisteddfod Sir Eryri a dod yn ail yno. Dymuniadau gorau rwan i Ysgol Llanrug ac Ysgol Llandwrog, sef y rhai fydd yn cynrychioli ein dwy gystadleuaeth ni yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Daeth nifer o wobrau gwaith Crefft i'r ysgol ar lefel cylch a'r sir.

Mae gwaith rhai o'r plant wedi mynd ymlaen i'r Genedlaethol a gobeithio y daw llwyddiant iddynt eto yno.

Cawsom gyfarfod difyr iawn o'r Urdd yng nghwmni Mrs. Pat Jones, Cae Coch, Brynrefail. Bu'r plant yn ddiwyd iawn yn paratoi mwgwd cwnigen a charem ddiolch yn fawr iddi am roi o'i hamser.

Cynhaliwyd sesiynau llwyddiannus iawn o Gampau'r Ddraig bob yn ail nos Fercher. Mae nifer o blant ifanc Blwyddyn 3 bellach yn dangos addewid fel chwaraewyr hoci dawnus. Diolch Mrs. Nia Oliver, Mrs. Jen Roberts a Mrs. Simone Simpson (mam Joe) am helpu.

Cafodd plant Bl.1 a 2 fynd i Eglwys Sant Gabriel i weld yr adeilad. Mrs. Hilda Oritt aeth yno gyda hwy i egluro beth sydd yn digwydd yno. Yna, ar ddiwrnod gwahanol, aeth a phlant bach dan 5 oed yr ysgol i weld y bedyddfaen a chael hanes bedydd yr Eglwys. Diolch yn fawr i chwi Mrs. Oritt, rydym yn gwerthfawrogi eich gwasanaeth.

Mae'n braf cael llongyfarch plant yr ysgol sy'n llwyddo a dangos eu doniau mewn gwahanol feysydd.

Llongyfarchiadau i Gethin Wynn am basio ei arholiad piano; i Amy Williams am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth fewnol band Llanrug, ac i Mared Morris am ennill cystadleuaeth Gymnasteg yng Nghaernarfon. Bydd hi rwan yn rhan o dim Gaernarfon fydd yn cystadlu i lawr yn Ne Cymru. Pob lwc iddi eto.

Cafodd plant Bl.6 dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail yn dilyn

gwersi Bl.7. Roedd pawb wedi mwynhau eu profiadau yno a diolch i Mr. Eifion Jones a'r staff am ofalu amdanynt yn ystod eu hymweliad.

Enillwyr Clwb yr ysgol ddiwedd Ionawr oedd Dr Eysyllt Llwyd; Mrs. Ceri Lloyd Hughes a Mrs Iris Rowlands. Y tri lwcus yn mis Chwefror oedd Mrs Marjorie Roberts, Mrs. Delyth Hughes a Nia Erin Davies. Aeth gwobrau mis Mawrth i Mrs. Gwyneth Roberts, Mrs. Gwenifer Roberts a Nia Erin eto!

Cafwyd dau gyngerdd cyn i ni gau am y Pasg. Perfformiodd y Babanod sioe fach 'Rhoi Trefn ar y Tywydd' brynhawn dydd Iau. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn. Yna nos Wener, tro yr Adran Iau oedd hi i gyflwyno noson o ddawns a cherdd. Cafwyd ymateb gwyb i gystadlaethau addurno het, gwneud

cerdyn Pasg a chreu cymeriadau bach allan o wyau. Cyflwynwyd wyau Pasg yn wobrau i'r enillwyr. Diolch o galon i rieni gweithgar yr ysgol am drefnu'r mynediad, y stiwardio, y raffl a'r lluniaeth. Roedd ein gwaith ni fel athrawon yn hawdd - dim ond paratoi y plant oedd ei angen!

Bu Clair Pritchard o Ysgol Brynrefail atom am wythnos o brofiad gwaith. Gobeithio ei bod wedi cael amser buddiol a diolch iddi am ei help gyda'r plant.

Cynhelir noson o rasmus ceffylau yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis nos Wener, Ebrill 30ain. Bydd y noson yn cychwyn am 7.30 o'r gloch gyda'r ras gyntaf am 8 o'r gloch. Y tro hwn dim ond oedolion fydd yn cael bod yno, felly croeso i chwi ymuno yn yr hwyl.

Jones
Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982



Jill Evans, ASE Plaid Cymru a Dafydd Wigley yn cael croeso cynnes gan Caroline a Mervyn yng Nghaban y Cwm. Roedd Jill Evans yn yr ardal yn ymgyrchu ar gyfer yr etholiad i Senedd Ewrop a gynhelir ar 10 Mehefin.

STEPHEN JONES

— Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Lienni Venetian a Lienni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher


SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: **650218**

CROESAIR MAI



Mae'r wyth ateb sydd heb gliwiau iddynt yn rhannau symudol o'r l ar draws.

Ar draws:

3. Cymoni (7)
6. Ble mae'r afon yn arllwys o'r llyn, wa! (4)
11. Llosg eira (6)
13. Y mawr gwahanol, gwahanol! (5)
14. Penaethiaid adrannau y brifysgol (7)
15. Ceidwadwr yn mwydro, ac yn newid cyfeiriad (4)
16. Y ferch o'r Felinheli (4)
17. Cysuro (6)
20. Y cwbl mewn maint neu rifedi (3)
24. Trefnu'r i'r adar pur arlwyol (7)
26. Mae'r caws a'r dyn meddw yn gytûn! (7)
28. Dŵr o'r llygad (6)
30. Symudiad y goes wrth gerdded (3)
31. Trol a dynnir gan fodur (6)
34. Cynulleidfa fawr (4)
35. Tyweirch wedi eu sychu er mwyn eu llosgi (4)
41. Sect grefyddol (5)
43. Arfau'r paffiwr (6)
44. Swllt ar ben y bunt! (4)
46. Trysor y Traddodiad Barddol (4)

I Lawr:

1. Gŵr y wraig anffyddlon (7)
2. Defnydd hydwyth cryf a geir o nodd coeden (5)
4. Ffraf (4)
5. Dychmygu mae Sion y meddw! (3)
7. Brith (7)
8. Awen Gwyndaf Wyn Jones? (5)
10. Offeryn palu lydan a'i hymylon yn codi ychydig (3)
15. Craig a ffurfir o'r gronynnau mân a geir pan fydd y graig yn chwalu!! (9)
18. Sialens (3)

19. Ymylon (5)
21. Rhoi yng ngwlych (5)
23. Gradd gymharol agos (3)
24. Dynesu mewn swildod (3)
25. Ffrwyth yr ellygen (3)
27. Y tad cyntaf, mae'n debyg ... (3)
32. sy'n tyfu'n iâr fach yr haf? (6)
33. Gwanhad (7)
34. Gŵr caeth - y dihiryn! (5)
36. Calon y ddynas grefyddol? (5)
38. Heoludd culion (5)
39. Sain cain mewn barddoniaeth!! (3)
40. Rhodd gwraig 27 i lawr iddo (4)

Derbyniais atebion i groesair mis Ebrill gan Nansi Davies, Rhuthun; Catherine A. Jones, Rhiw; Ceridwen Williams, Llanrug; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Jean Hughes-Jones, Rhiw; D. B. Williams, Trefor; N. Hughes, Cwm-y-glo; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Nan Owen, Llanberis; M. P. Jones, Clynnog; Mair Evans, Caernarfon; Gareth a Sara Oliver, Tregarth; H. O. Hughes, Pwllheli; Jennie Williams, Caernarfon; Eluned Jones, Trefor; Margaret Wyn Roberts, Caernarfon; Moreen Lennon, Llanberis; Pat Owen, Caerfyrddin; Nant Roberts, Llanrug; Olwen Owen, Llanberis; Gwen Griffith, Dciniolcn; Alwyn Hughes, Llanberis; Eirian Roberts, Llanrug; Megan Morris, Dinorwig.

Gair bach i egluro pam mai CYDYN yn hytrach na CWDYN ydi'r ateb cywir i 26 ar draws, a hynny am fod y gair wedi ei guddio yn y cliw - 'Y pŵrs sy'n dal cele y dyn cybyddlyd.'

Enillydd y mis ydi Jean Hughes-Jones, Llys Gwilym,



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol


+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



Pencaerau, Rhiw, Pwllheli. Llongyfarchiadau a £5 i chwi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Mai, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun erbyn 17 Mai 2004.

B-J-GLAZING Penisarwaun

Gwydro a Thrawsio Ffenestri

(rhan o fusnes teulu a fu'n gosod gwydr a ffenestri am dros 80 mlynedd)
CYNIGION ARBENNIG!

- 3 ffenest UPVC gwyn wedi eu gosod yn llawn = £650
- 5 ffenest UPVC gwyn wedi eu gosod yn llawn = £1,200
- Prynwch 7 ffenest a chael drws yn rhad ac am ddim - wedi eu gosod yn llawn

Arbedion mawr ar

- ddrysau patio
- drysau Ffrengig (French doors)
- statelloedd haul (conservatories)
- 50% oddi ar fascia boards

Ffôn 07984 354783

neu (01286) 871774 (ar ôl 1 Mai 2004)

Sylwer...newid pwysig!

CYSTADLEUAETH
GOLFF
CYN-DDISGYBLION
AC ATHRAWON
YSGOL BRYNREFAIL

Cynhelir y gystadleuaeth yn awr DDYDD SUL, 27 MEHEFIN 2004 ar Gwrs Golff Caernarfon rhwng 11.30 am a 6.00 pm

Mae hyn yn lle dydd Sul, 13 Mehefin fel yr awgrymwyd yn y lle cyntaf.

Manylion pellach:
Hugh Roberts,
Caernarfon 676063

CHWARAEON

'CAP' Llawn arall

Wedi camp ryfeddol Manon Lloyd Williams i dîm hŷn Rygbi Cymru, daeth cap arall i'r ardal. Cafodd Catrin Evison o Gae Hopcyn, Caethro, y fraint o gynrychioli tîm dan 19 merched Cymru. Fel Manon, mae'r asgellwr chwimwth yn aelod o dîm llwyddiannus Caernarfon.

Gwrthwynebwyr Cymru ar y diwrnod oedd tîm hŷn Sweden. Chwaraewyd y gêm ar feysydd clwb rygbi Caerlyr am fod y tîm o Sweden yn chwarae mewn twrnament yn yr ardal. Ar y diwrnod cafwyd perfformiad da gan y Cymry mewn gêm ofnadwy o glos ond a enillwyd gan Sweden o 5-0; un cais yn unig yn gwahanu'r timau. O'r hyn a glywais i roedd y gwahaniaeth oed, ac felly'r cryfder, yn elfen bwysig yn y fuddugoliaeth. Edrychwn ymlaen i ddilyn 'gyrfa' rygbi Catrin, ac efallai fel Manon, rhyw ddydd yn cael chwarae i dîm hŷn Cymru.

(A'r Eco yn mynd i'w wely, clywsom fod Catrin yng ngharfan Cymru i wynebu Lloegr draw yn Coventry. Pob lwc.)

Rhaghysbys

Ydych chi'n dechrau hel timau ar gyfer noswaith fawr Tlws yr Eco 2004? Cofiwch y drefn, pêl-droed dan 9 a dan 11, a'r un adrannau yn y bêl-rwyd. Ar ôl gwneud y trefniadau, fe anfonaf y ffurflenni yn uniongyrchol at gynrychiolwyr y timau/ ysgolion. Os bydd digon o alw, fel y llynedd, efallai y gellir trefnu cystadleuaeth dan 7 hefyd. Byddwch barod!

Bron Iawn Yno

Llythyrau Dienw

Ie, cefais ddau gan yr un awdur yn ddiweddar a, chan fy mod yn hoffi derbyn defnydd ar gyfer y golofn, fe rof sylw iddynt. Yn enwedig gan fod yr awdur/awdures yn cyfeirio at Olygydd Chwaraeon golygus(?) dawnus(?) aml-ddoniau(?) barddonol(?) yr Eco.

Ein hatgoffa mae'r llithiwr am y wledd griced ym Mae Colwyn eleni ym mis Awst. Un yn breuddwydio am haf poeth arall gobeithio.

Yr arlwy eleni fydd dwy gêm 'ddarbi' gyda Morgannwg yn herio Sir Gaerhirfryn mewn gêm undydd ar Sul, 22 Awst, ac yna Morgannwg yn herio Swydd Efrog mewn gêm pedwar niwrnod, o Awst 24-27. Gwledd yn ein haros gobeithio. Diolch Mr Anhysbys am fy/cin hatgoffa a gwelwn chi yno!

Rhamant

Sawl gwaith y clyswom ni rywun yn dweud eu bod wedi 'gwireddu breuddwyd'. Yn sicr mae hyn yn wir am gamp Tracey Morris, y rhedwraig marathon sy'n wreiddiol o Gaergybi. A fu dwy awr a hanner mwy rhamantus ym myd athletau?

Dyma ferch a gynrychiolodd dimau traws gwlad ysgolion Cymru tra'n ddisgybl yng Nghaergybi, yna rhoi'r gorau i'r gamp am flynyddoedd cyn ailgydio mewn rhedeg er mwyn 'cadw'n heini' a 'dipyn o hwyl'.

Yn 36 oed, wedi ei champ anhygoel yn y glaw hyd strydoedd Llundain, mae hi ar ei ffordd i Athen ar gyfer y Gemau Olympaidd. Onid stori fel hyn yw gwir ramant unrhyw gamp - y cyfle a ddaw o benderfyniad, dycnwch ac ymroddiad.

Mae nifer o redwyr lleol yn cynrychioli Clwb Eryri, a gwelwn hwy ymhob tywydd yn troedio'r ffyrdd neu redeg mynydd. Brid arbennig yw'r rhain. Rhai nad oedd ganddynt unrhyw gyfleusterau trac tan y datblygwyd Treborth ychydig flynyddoedd yn ôl. Tybed a oes un cyffelyb i Tracey Morris yn eu mysg? Yn sicr, mae ambell un all lygadu Gemau'r Gymanwlad.

'Faint ydych chi ei heisiau hi?' fyddai cri sawl hyfforddwr dros y blynyddoedd. Dyna'r her i bob un sy'n ymwneud â'r campau yn lleol. Ydi'r ymroddiad gennym a'r parodrwydd i aberthu rhai agweddau i gyrraedd y brig. Teledu i ffwrdd, tracwsg ymlaen, a ffwrdd â ni!

Beth am Gefnogi

Tair noson i'ch dyddiadur, i gyd yn rowndiau terfynol am wahanol gwpanau.

Ar nos Wener, 30 Ebrill, bydd Llanrug yn herio Bethesda am Gwpan Alves ar faes clwb pêl-droed Conwy.

* * *

Nos Fercher, 5 Mai, bydd Bethel yn herio tîm y Gaerwen am gwpan yr AEU. Mae hon yn gwpan gwerth ei hennill gan ei bod yn agored i dimau cynghreiriau Môn ac Arfon. Dylai fod yn dipyn o gêm gan i'r Gaerwen guro tîm cryf Gwelfor Caergybi yn y rownd gyn-derfynol. Yna ganol y mis bydd Bethel yn herio Llanystumdwy am Gwpan Safeflue.

* * *

Sôn am gefnogi, beth am fynd a thîm plant i'r Cae Ras i gefnogi Cymru yn erbyn Canada. Fe chwaraeir y gêm ar ddydd Sul, 30 Mai, a gellir llogi tocynnau yn y lloc deuluol am £5 y plentyn. Tipyn o fargen a ffordd dda i unrhyw glwb ddiweddu eu tymor gyda treat bach i'r chwaraewyr.



Dyma griw dan 15 Clwb Pêl-droed Bethel a noddwyd yn eu blwyddyn gyntaf yn y gynghrair gan Gelli Gyffwrdd. Dywed Cyfarwyddwr Gelli Gyffwrdd, Mr Stephen Bristow, 'Mae'r cwmni yn falch o'r cyfle hwn i gefnogi pobl ifanc yr ardal drwy noddi cit ar gyfer y tîm dan 15.'

Mae'r rhan fwyaf o'r hogia yn ddisgyblion B1.9 yn Ysgol Brynrefail ac, yn ogystal â bod yn ddiolchgar i Gelli Gyffwrdd am

eu caredigrwydd, maent hefyd yn diolch i'w hysgol am ganiataau iddynt ddefnyddio'u caeau tra mae Cae Coed Bolyn, Bethel yn dod i drefn. Diolchir hefyd i Mr Elis Wyn am eu hyfforddi drwy'r flwyddyn ac i Mr Richard Llwyd Jones a Mr Alun Meirion am ddyfarnu gemau cartref mor ddi-duedd yn ystod y tymor!

Yn absennol o'r llun mae Oliver Caine, Laurie Silvestre a Carwyn Stokes.

Bethel 2 Caernarfon Boro 1

Denwyd torf ddisgwylgar i faes Ysgol Brynrefail ar noson wyntog i wyllo'r gêm allai benderfynu pencampwyr Cynghrair Arfon eleni. Roedd y ddau dîm wedi cyfarfod bedair gwaith eisoes y tymor yma, gyda'r Boro yn ennill dwy gêm yng nghwpanau T&GWU a Ffilmiau'r Nant, ond Bethel a orfu yn y gêm gynghrair a rownd gyn-derfynol Cwpan Safeflue.

Ar faes anwastad ac yn y gwynt cryf rhaid canmol y ddau dîm am geisio chwarae pêl-droed deniadol. Roedd y pasio yn llyfn a digon o symud oddi ar y bêl. Wedi pum munud, a Bethel yn gwynebu'r elfennau, peniodd Irfon Hughes yn erbyn y postyn. Cafodd Bethel ugain munud o reoli gyda'r hen ben, Iwan Jones, yn ennill y taelo yng nghanol y cae, a'r ddau gawr yn y canol, Newell a Hughes, yn tawelu bygythiad y Boro drwy'r peli hir wedi eu hanelu at y gwir 'hen ben' - James Hague, sy'n hanner cant yr wythnos nesaf.

Yna, cafwyd tri chyfle da i Fethel: Gavin Edwards yn agos wedi rhediad da; Irfon Hughes â foli o 30 llath a aeth dros y traws, ac Iwan Jones yn agos o groesiad Caerwyn Roberts.

10 munud a chydbywysedd y gêm yn newid. Y Boro yn dechrau rheoli canol cae, Jason Joyce yn gorfodi arbediad da wrth droed y postyn gan Machno, a Hayes yn taro dros y traws wedi croesiad o'r dde.

Ar yr hanner awr daeth y gôl gyntaf - un flêr ar sawl ystyr. Taflad hir o'r dde, amddiffyn Bethel yn cael eu tynnu at y postyn agosaf, y bêl yn hwylio drostynt a James Hayes yn penio o ddwy lath. Yn ôl daeth Bethel gydag ambell hanner cyfle ond daeth y chwiban hanner amser gyda'r fantasia gan y Gofis.

Gyda'r gwynt yn cryshau o'r cefn cafodd Bethel y dechrau

delfrydol. Pêl hir i lawr y cae, Joyce yn methu ei thrafod a Gavin Edwards yn glir i rwydo ei ugeinfed gôl am y tymor. Gyda'r Boro yn gorfod ennill i gael siawns o gipio'r bencampwriaeth, daeth yn gêm o amddiffyn a thorri'n sydyn i Fethel. Daeth y Boro yn agos gyda ergyd gelfydd Hayes ond Machno yn arbed yn wych gan wro'r bêl dros y traws.

Cafwyd ambell hanner cyfle i'r ddau dîm mewn cyfnod blêr o chwarae. Yna deng munud olaf tanllyd.

Yr eilydd, Huw Owens, a dewiniaeth ar y dde, a'i groesiad o'r dde yn cael ei lawio, yn ôl y dyfarnwr, Mr Curtis. Dyfarniad dewr, ond un oedd yn adlewyrchu perfformiad cadarn a synhwyrol gan y dyfarnwr ifanc yma. Wedi pwyllgora, camodd Gavin Edwards ymlaen i rwydo o'r smotyn ac wyth munud o gnoi ewinedd i gefnogwyr Bethel.

Yn ôl y daeth y Boro a dylai Jamie Richardson fod wedi gwneud yn well gyda pheniad o bum llath. Y chwiban olaf a'r fuddugoliaeth i hogia Bethel wedi gêm dda dan amgylchiadau anodd.

Mae angen un pwynt pellach ar Fethel o'r tair gêm sy'n weddill. Gobeithio nad ydym yn temtio ffawd drwy eu llongyfarch ar gipio'r bencampwriaeth. Ymlaen felly i dymor cyntaf yng Nghynghrair Gwynedd. Da iawn hogs! a llongyfarchiadau mawr i John Cefn a'r criw gweithgar tu ôl i'r llenni.

Oi Nodyn diddorol

Mae Alan Williams a Dewi Williams wedi cyflawni hat-tric arbennig yn eu hymwneud â chlybiau pêl-droed yr ardal. Maent wedi ennill pencampwriaeth Cynghrair Arfon gyda Llanrug (80'au) Dciniolcn (90'au) a Bethel y ganrif hon. Tydyn nhw'n edrych yn dda am eu hoed!